

ECO'R WYDDFA

Rhif 178

EBRILL 1992

Pris 25c.

TREFNIADAU NEWYDD I'R ECO

Mewn cyfarfod yn Ysgol Brynrefail, Llanrug, nos Wener, Mawrth 20, lluniwyd argymhellion ar gyfer newid patrwm golygu a rheoli *Eco'r Wyddfa*. Mae hyn yn deillio o'r cyfarfod cyhoeddus llwyddiannus a gynhaliwyd ym mis Tachwedd y llynedd mewn ymateb i fygythiad i ddyfodol y papur. Cyflwynir y drefn newydd i'w chadarnhau yng Nghyfarfod Blyneddol Cyffredinol *Eco'r Wyddfa* a gynhelir ym mis Mai.



Y Parch. John Pritchard

Penderfynwyd ar olygyddiaeth newydd dan ofal tîm o dri, Ifor Glyn Efans o Ddeiniolen, John Pritchard o Lanberis, ac Iwan Roberts o Lanrug. Bydd yr oruchwyliaeth newydd yn ysgwyddo'r cyfrifoldeb am gynhyrchu'r *Eco*, gan gychwyn â'r rhifyn nesaf, sef rhifyn mis Mai. Er yn cyd-weithio fel tîm, y bwriad yw i'r tri fedru rhannu'r baich gan weithredu yn eu tro fel 'golygydd y mis'. Yn yr un modd penderfynwyd sefydlu timau ar gyfer gosod y papur, a sicrhau na fydd y gwaith hwnnw chwaith yn syrthio ar un neu ddau o unigolion.



Ifor Glyn Efans

Felly, DALIER SYLW: anfonwch unrhyw ohebiaeth o hyn allan i'r golygyddion newydd. Mae eu henwau a'u cyfeiriadau yn y golofn gyntaf ar dudalen 2.



Iwan Roberts

Penderfynwyd hefyd ar aelodaeth a maes llafur Pwyllgor Llywio *Eco'r Wyddfa*. Bydd y pwyllgor o 20 yn gyfrifol am ddatblygiad y papur bro gan osod amcanion, llunio cyfansoddiad a rheoli gweithgareddau *Eco'r Wyddfa* yn gyffredinol. Y Cadeirydd fydd John Roberts, Trefnydd Hysbysebion, a'r Ysgrifenydd fydd John Grisdale, Prifathro Ysgol Brynrefail.

Cynhelir
CYFARFOD O'R
PWYLLGOR LLYWIO
Nos Wener, Ebrill 10
yn Ysgol Brynrefail
am 7 o'r gloch

Y DIWEDDARAF
AM
EURO/DPC
NEWYDDION
O BWYS I'R FRO
AR Y
DUDALEN RYDD

HAELIONI YMRYSONWYR Y NANT



Roedd nos Iau, Chwefror 27, yn achlysur go arbennig, a hwyliog, mae'n amlwg, yng Ngwesty'r Faenol, Nant Peris. Dyna'r noson y cyflwynwyd siec ar ran Pwyllgor Ymryson Cŵn Defaid Nant Peris a'r Cylch gan Mrs Ann Williams, gwraig y Llywydd Mr Bill Williams, Pwerdy Dinorwig. Gyda hi, yn cynrychioli'r pwyllgor roedd Mr Stanley Morgan (Trysorydd) a Mr W. O. Griffith (Cadeirydd).

Siec ydyw am £500, sef arian a gasglwyd yn ystod 1991, i'w rannu'n gyfartal rhwng Nyrsus Ardal/Meddyg y pedwar plwyf.

Yn y llun, gyda'r swyddogion mae Mrs Jean Parry (Llanddeiniolen), Dr Huw Roberts, Nyrs Beth Jones (Llanberis) a Nyrs Betty Parry (Llanddinorwig).

SENSRO BEIRDD LLANRUG A THRWBADŴR CAEATHRO

Mae'r BBC wedi atal darlledu rhaglen 'Talwrn y Beirdd' rhwng tîm Llanrug a thîm Gwlad y Medrau, Ynys Môn, ar Radio Cymru am fod y penaethiaid yn poeni ynghylch diffyg cydbwysedd gwleidyddol rhai o'r cerddi ar adeg Etholiad Cyffredinol.

Y bwriad oedd darlledu'r rhaglen ar nos Sul, Mawrth 22. Ond rhai dyddiau cyn hynny ffonwyd capten tîm Llanrug, Iwan Roberts, gan gynhyrchydd 'Talwrn y Beirdd', Trystan Iorwerth, i ddweud fod y darllediad wedi ei ohirio am dair wythnos tan ar ôl y 'lecsiwn'.

Deillir fod tair o gerddi Llanrug wedi methu'r prawf sensitifrwydd am eu bod yn dychanu Kenneth Clarke, y Gweinidog Addysg; David Hunt a Syr Wyn Roberts o'r Swyddfa Gymreig. Mae'n debyg bod un o gerddi Gwlad y Medrau hefyd wedi pechu'r 'sensor'.

Dywedodd Trystan Iorwerth wrth *Eco'r Wyddfa* i'r cerddi gael eu gwahardd am eu bod yn 'wleidyddol unochrog'. Roedd tîm Gwlad y Medrau wedi cyfeirio at 'geg bitw Major' a chwpled gan Tony Elliot, Llanrug, ar y testun 'Mwyaf trwst llestri gweigion' yn dychanu Kenneth Clarke y Gweinidog Addysg fel:

*Doethur y geiriau dethol,
Hirben yw — drwy ei ben ôl!*

Yn ôl Lyn Jones, Golygydd Radio Cymru, 'Doedd dim byd newydd ysgytiol' mewn gwahardd rhaglen adeg etholiad cyffredinol. Pan awgrymodd *Eco'r Wyddfa* nad oes unrhyw gydbwysedd cyffelyb yn y bwletin newyddion sy'n deillio o Lundain esboniodd mai 'o fewn cyddestun Cymru' y mae Radio Cymru yn gweithredu.

Gall *Eco'r Wyddfa* ddadlennu'n 'ecslwsif' hefyd fod S4C wedi gwahardd cân Dafydd Iwan — 'Cael Cymru yn Gymry Rydd' oddi ar y teledu am yr un rheswm. Roedd y gân i fod i gael ei darlledu ar nos



Fawrth, 24 Mawrth, yn y gyntaf o gyfres newydd gan gwmni Tir Glas o'r enw 'Cân i Gymru, Ddoe-Heddiw'. Mae'r gyfres o bedair rhaglen yn edrych nôl ar enillwyr y gorffennol yn y gystadleuaeth ac yn dangos dwy o ganeuon newydd 1992 bob wythnos fel rhagflas o gystadleuaeth 'Cân i Gymru' a ddarlledir tua diwedd Ebrill.

Y gantores Iris Williams a enillodd gyda cân Dafydd Iwan ond canwr arall oedd i'w phermormio y tro hwn. Cadarnhaodd llefarydd ar ran swyddfa'r wasg S4C fod cân Dafydd Iwan wedi ei symud o raglen Mawrth 24 i Ebrill 14, sef ar ôl y lecsiwn. Roedd yr wyth cân newydd a ddewiswyd ar gyfer 'Cân i Gymru' 1992 yn dderbyniol o ran cydbwysedd, meddai, gan ychwanegu, 'Mae pob darlledwr cyfrifol yn gorfod bod yn gytbwys a diduedd'.

ECO'R WYDDFA

RHIF 178
EBRILL 1992

Argraffwyd gan Wasg Gwynedd
Cibyn, Caernarfon.

Cyhoeddwyd gyda chymorth
Cymdeithas Gelfyddydau
Gogledd Cymru.

SWYDDOGION A GOHEBWYR

Y TÎM GOLYGYDDOL

IWAN ROBERTS
LLEIFIOR, LLANRUG
(Ffôn: Caernarfon 5649)

IFOR GLYN EFANS
AFON GOCH, DEINIOLEN
(Ffôn: Llanberis 870068)

JOHN PRITCHARD
CILFYNYDD, LLANBERIS
(Ffôn: Llanberis 872390)

GOLYGYDD CHWARAEON:

Richard Ll. Jones, 5 Y Ddôl, Bethel.
(670115).

DYDDIADUR Y MIS:

Mrs Olwen Llywelyn, Pant Afon Bach,
Llanrug (Waunfawr 200)

FFOTOGRAFFWYR:

Gwyndaf Jones, 60 Glanffynnon,
Llanrug (C'fon 4669)

Gwyndaf Hughes, Glasgoed, Llanrug
(C'fon 77263)

TREFNYDD HYSBYSEBION:

John Roberts, Bedw Gwynion, Llanrug
(C'fon 5605)

Iola Llewelyn Gruffudd, 17 Stâd Ty
Hen, Waunfawr, (Waunfawr 599).

TREFNYDD GWERTHIANT:

Arwyn Roberts, Hafle, Ffordd yr Orsaf,
Llanrug (C'fon 5510)

TREFNYDD ARIANNOL:

Goronwy Hughes, Eithinog, 14 Afon
Rhos, Llanrug (C'fon 4839)

TREFNYDD GWERTHIANT POST:

Mrs E Whiteside Thomas, Dolwar,
Llanrug (C'fon 4778)

GOHEBWYR PENTREFI:

Dyma'r
bobl i gysylltu â nhw yn eich
ardaloedd.

BETHEL: Geraint Elis, Cilgeran,
(Portdinorwig 670726)

BRYNREFAIL: Miss Lowri Prys
Roberts, Godre'r Coed (870580)

CAEATHRO: Mrs Beryl Roberts,
Gerallt, Erw Wen (C'fon 3536)

CEUNANT: Gwenno Parri, Morwel
(Waunfawr 321)

CWM-Y-GLO: Mrs Iris Rowlands,
Glanrafon (Llanberis 872275)

DEINIOLEN: W O Williams, 6 Rhyd-
fadog, Deiniolen (Llanberis 871259)

DINORWIG: Mr D J Thomas, 8 Maes
Eilian (870773)

LLANBERIS: Gwyneth ac Eifion
Roberts, Becws Eryri, 870491.

LLANRUG: Mrs Dyfi Jones, Tyddyn
Rhuddallt (Caernarfon 76733)

NANT PERIS: Mrs Ann Fleming,
Dolwen, 8 Nant Ffynnon (871457)

PENISARWAUN: Mrs Ann Evans,
Sycharth (Llanberis 872407)

TAN-Y-COED: Miss Anwen Parry, Ael
y Bryn. (872 276)

WAUNFAWR: Mrs Nan Roberts,
Pantafon, Waunfawr (Waunfawr 570).

Y RHIFYN NESAF

Daw'r rhifyn nesaf o'r wasg
NOS IAU, EBRILL 30

Deunydd i law'r
golygyddion perthnasol
NOS LUN

EBRILL 20
os gwelwch yn dda

DYDDIADAU A LLEOLIAD PLYGU'R ECO

RHIFYN	DYDDIAD PLYGU	BLE?	CYSYLLTU Â	RHIF FFÔN
MAI	EBRILL 30	DEINIOLEN	Mr W. O. WILLIAMS	Llanberis 871259
MEHEFIN	MAI 28	BRYNREFAIL	Miss LOWRI P. ROBERTS	Llanberis 870580
GORFFENNAF	GORFFENNAF 2	BETHEL	Mr GERAINT ELIS	Felinrheli 670726
AWST	—	—	—	—
MEDI	AWST 27	DINORWIG	Mr MEIRION TOMOS	Llanberis 870056
HYDREF	HYDREF 1	PENISARWAUN	Mrs ANN EVANS	Llanberis 872481
TACHWEDD	HYDREF 29	CWM-Y-GLO	Mrs IRIS ROWLANDS	Llanberis 872275
RHAGFYR	TACHWEDD 26	LLANBERIS	Mr GWILYM EVANS	Llanberis 872034

Llythyrau

Y NANT YN YMATEB I'R HER

Annwyl Olygydd,

Hoffwn dynnu sylw eich darllenwyr
at gwrs a gynigir gan y Ganolfan
laith Genedlaethol, Nant
Gwrtheyrn, eleni.

Er mai dysgu Cymraeg i
ddysgwyr yw ein prif waith, yr
ydym hefyd yn ymwybodol o'n
cyfrifoldeb tuag at y Cymry
Cymraeg.

Yn dilyn ymholiadau a
dderbyniwyd gennym yn ddiweddar
daeth y ffeithiau canlynol i'r amlwg:

★ Bod llawer o Gymry Cymraeg
naturiol yn teimlo'n ddi-hyder yn
eu defnydd ysgrifenedig o'r iaith,
ac o'r herwydd yn troi i'r
Saesneg;

★ Bod nifer o Gymry sy'n gweithio
ym myd busnes a masnach yn
awyddus i gynyddu eu defnydd
o'r iaith yn eu gwaith beunyddiol
— gohebu, a.y.y.b. Grym arferiad
a diffyg hyder yn unig sy'n eu
cadw rhag gwneud hyn.

Yr ydym felly yn ymateb i'r her.
Cynhelir cwrs pum niwrnod yn y
Ganolfan; dyddiadau — **Mehefin
7-12** (dyddiol neu breswyl). Enw'r
cwrs fydd 'Cymraeg Mewn
Busnes', a bydd y pwyslais yn
bennaf ar wella Cymraeg
ysgrifenedig.

Am fwy o wybodaeth ffoniwch
y Swyddfa: **075 885 334/335.**

Yr eiddoch yn gywir,
CATRIN PARRI
Tiwtor Cynorthwyol.

Gemi • Bedyddio • Iŵed • Priodas

Ychydig o'r arbennig?
Ychydig o'r unigryw?
Beth am un o samplari

**PWYTHAU
CAIN**

Cynllunir pob sampler
yn ôl dymuniad ac anghenion yr unigolyn.

Hefyd gwniadwaith o bob math
gwneud dillad, newidiadau, ffenni, a.y.y.b.

Cysylltu â
MARY ELLIOTT
Llanberis 872438

Cartref Newydd • Darnau o farddoniaeth

AR Y CYD

Y mae Bwrdd yr Iaith Gymraeg
wedi mynegi mor falch ydyw o'r
cyfle i gydweithio gyda
Chymdeithas y Dysgwyr (CYD) i
drefnu cynhadledd ar
'Gymdeithasau yn y Gymraeg
ymhlith Oedolion Ifainc'. Cynhelir y
gynhadledd ar Gampws Coleg
Prifysgol Cymru, Aberystwyth, ar
14 a 15 Ebrill eleni.

Pwrpas y gynhadledd yw dwyn
ynghyd gynrychiolwyr o fudiadau
sy'n gweithio gydag oedolion ifainc
rhwng 18 a 25 oed, o sefydliadau
y mae eu penderfyniadau'n
effeithio ar oedolion ifainc, ac hefyd
o du'r oedolion ifainc eu hunain.
Cyfyngir nifer y cynrychiolwyr i 80.
Bydd CYD yn cyhoeddi mwy o
fanylion am y gynhadledd maes o
law.

MONOPOLY



Derek Hughes o Stryd yr Wyddfa,
Llanberis, a fu'n cystadlu ar y
rhaglen 'Monopoly' ar y teledu yn
ddiweddar.

ANTUR PADARN Ceisio Codi Proffail

Ceisio codi proffail yr Antur; symud
ymlaen i benodi Swyddog Datblygu;
cyhoeddi canlyniadau'r Holiadur; a
hyrwyddo cyflogaeth leol, yn
arbennig gan gwmni Euro-DPC —
rhain, ymysg pethau eraill, oedd y
prif faterion a drafodwyd mewn
cyfarfod o Antur Padarn yn
Llanberis, ar nos Iau, 5 Mawrth.

Teimlwyd bod angen ymgyrchu
cyhoeddusrwydd mawr i ddwyn sylw
y cyhoedd yn gyffredinol tuag at
waith yr Antur. I'r perwyl hwn
cytunwyd y byddai sicrhau Swyddog
Datblygu a chyhoeddi canlyniadau'r
Holiadur yn mynd yn bell iawn tuag
at wireddu'r nod. Eisoes mae
trafodaeth ar droed gyda Awdurdod
Datblygu Cymru er mwyn symud
ymlaen i gyflogi swyddog, ac mae'n
edrych yn obeithiol y gwelir cyhoeddi
rhywfaint o ganlyniadau'r Holiadur
yn y dyfodol agos. Pan ddigwydd
hynny bydd yr Antur yn gweithredu
ar yr ymrwymiad a wnaed pan
ddosbarthwyd yr Holiadur, sef y
byddai'r Antur yn cynnal Cyfarfod
Cyhoeddus o gwmpas pentrefi'r
dyffryn.

O safbwynt hyrwyddo cyflogaeth

leol mae'r Antur wedi trefnu cyfarfod
gyda cynrychiolydd o gwmni Euro-
DPC ynglŷn â'r mater hwn.
Ymddengys y bydd y cwmni yn
hysbysebu swyddi yn y dyfodol agos
ac mae'r Antur yn awyddus mai pobl
leol fydd yn cael y cyfle cyntaf am y
swyddi hyn. Felly cyfarfod pwysig
iawn yn yr arfaeth.

Yr un mor bwysig oedd y cyfarfod
a gynhaliwyd ar safle Glyn Rhonwy
ar 26 Chwefror rhwng cynrychiolydd
o gwmni Euro-DPC a
chynrychiolwyr o ysgolion lleol
(cynradd ac uwchradd), Menter
Fachwen a Phwyllgor Tywysog
Cymru. Profodd yn cyfarfod buddiol
iawn gan y rhagwelir bod gobaith i
sefydlu prosiect amgylchyddol /
natur ar safel Glyn Rhonwy. I'r
perwyl hwn cynhelir cyfarfod pellach
yn Ysgol Brynrefail, Llanrug, ar 26
Mawrth i ddatblygu a manylu ar
natur y prosiect.

Os dymunwch ymuno yng
ngwaith yr Antur fe gynhelir y
cyfarfod nesaf yn yr Institiwt,
Llanrug, ar nos Fawrth, 14 Ebrill, am
7 o'r gloch.

Castell Cidwm



BETWS GARMON
Ffôn: Waunfawr 243

Dewch am wled ym
MWYTY'R PYSGOTWR
ar lan Llyn Cwellyn lle
diddorol, gwahanol, braff

ac am banded o goffi a theisen hufen
mae croeso i deuluoedd a phlant yn
CAFFI'R BWTHYN

'SIROEDD' NEWYDD Y TORIAID

Os daw'r Toriaid allan o'r lecsiwn yn fuddugoliaethus yna bydd bro'r *Eco* yn camu nôl i Sir Gaernarfon, a Gwynedd yn diflannu. Dyna argymhellion Ysgrifennydd Cymru, Dafydd Heliwr, yn ystod yr wythnosau diwethaf. Bydd cynghorau sir presennol Cymru yn diflannu, a'r 37 cyngor dosbarth/bwrdeistrefol yn cael eu diddymu. Yn eu lle sefydlir 23 o awdurdodau 'aml-bwrpas' newydd. Yng Ngwynedd, bydd Sir Fôn yn uned ar ei phen ei hun. Bydd yr hen Arfon a Dwyfor yn uno i greu 'sir' Gaernarfon newydd. Daw Meirionnydd yn ôl, a bydd Aberconwy yn ymuno â Cholwyn i greu uned arall.

Mae'r ad-drefnu ffiniau llywodraeth leol i ddigwydd yn Lloegr hefyd, ond yno, sefydlwyd Comisiwn i lunio argymhellion a chasglu tystiolaeth. Mae'r Comisiwn yn cael dwy flynedd o amser i wneud y gwaith. Gwnaeth Dafydd Heliwr ei benderfyniad o fewn ychydig wythnosau — a hynny ar ôl derbyn adroddiadau trwchus a swmpus o wahanol awdurdodau lleol ledled Cymru, gan gynnwys cynghorau sir, dosbarth a chymdeithas.

Galwodd Dafydd Wigley ar i'r newidiadau gael eu gohirio nes bod senedd yn cael ei sefydlu i Gymru, a chondemniwyd y penderfyniad gan y Cynghorydd William George ar ran Cynulliad Siroedd Cymru fel un 'hollol annemocrataidd'. 'Ystyriaethau gwleidyddol tymor byr yn hytrach na buddiannau tymor hir,' oeddynt yn ôl Prif Weithredwr Gwynedd, Huw Thomas, ac yr oedd Meurig Royles, Prif Weithredwr Dwyfor yn ofni am ddyfodol polisi uniaith Gymraeg y cyngor.

DYMCHWEL CASTELL YN LLANBERIS

Na, nid Dolbadarn, ond hen westy'r Castle ar y Stryd Fawr. Cafodd cwmni Watkin Jones a'i Fab, o Fangor, yr hawl i ddymchwel yr hen westy ac ailddatblygu'r safle. Y bwriad yw codi pedwar o dai a dwy siop gyda naw o fflatiau uwchben ar safle'r Castle. Cafodd y cais ei gymeradwyo gan Bwyllgor Cynllunio Cyngor Arfon fis diwethaf, er fod dau lythyr o wrthwynebiad wedi eu derbyn, yn bennaf oherwydd pensaernïaeth yr hen westy.

BARN DRAENOG

Mae'n amlwg fod ein Hysgrifennydd Gwladol yn ddyn tu hwnt o alluog, yn medru gwneud gwaith mor astrus mewn cyn lleied o amser, a Lloegr druan yn gorfod disgwyl dwy flynedd neu fwy i gael trefn ar eu ad-drefnu hwy. Gan ein bod ni'n genedl fach mor gymdogol, beth am roi 'free transfer' iddo i Loegr i wneud yr un gwaith? A gadael i ni, bobl y 'sir' Gaernarfon newydd benderfynnu be' ar wyneb y ddaear i'w wneud efo dau bencadlys synod o grand mewn tref fach dlawd sy'n brysur mynd â'i phen iddi?

BILIAU TRETH Y PEN YR ARDAL

Trigolion Llanberis fydd yn talu'r dreth leiaf yn Arfon yn y flwyddyn ariannol nesaf. Y prif reswm am hynny yw'r gwahaniaeth yn amrywiaeth y goddefiadau y mae'r Swyddfa Gymreig wedi eu caniatáu dan y cynllun gostyngiad. Dyma restr trethi ardaloedd bro'r *Eco*: Llanrug: £133.31; Waunfawr: £126.45; Betws Garmon £97.63; Llanddeiniolen: £97.80 a Llanberis: £88.41.

RHODDION

Gyda diolch i'r canlynol am eu rhoddion i'r gronfa — £5: Mr a Mrs Ron Hughes, 1 Bryn Hyfryd, Penisarwaun; Teulu Bodhyfryd, Waunfawr. £3: Mrs Elen Williams, 2 Bryn Tirion, Penisarwaun; £2: Di-enw, Llanberis; Sarah a Dick, Bangor, a theulu Deiniolen; Trystan Morris, 5 Cynfi Terrace, Deiniolen.

BENDISELSIG!



'Pen Cigydd y Fro' yw'r disgrifiad yn ei hysbysebion, ond y mis diwethaf aeth Wavell Roberts o Lanrug gam ymhellach mewn cystadleuaeth bwydydd iach wedi ei threfnu gan Guriad Calon Cymru. Roedd y gystadleuaeth yn agored i gygyddion a gwneuthurwyr pasteiod o ogledd Cymru, ac yn cael ei chynnal yng Ngwesty 70°, ger Bae Colwyn. Daeth dros 100 o gystadleuwyr ynghyd, wedi eu rhannu i dri dosbarth. Roedd Wavell yn cystadlu mewn dau o'r dosbarthiadau rheini, sef pastai a selsig. Cyn y cystadlu dywedodd Wavell fod ei obeithion am wobwr yn fwyaf tebygol yn yr adran basteiod, ond fel arall y bu hi, gan iddo ennill y drydedd wobwr am selsig braster isel.

Roedd y rheolau yn gofyn ar i'r cystadleuwyr baratoi dau bwys o selsig, gydag wyth ceginio ym mhob pwys. Rhaid oedd coginio un pwys cyn y gystadleuaeth, gan arddangos y pwys arall yn amrwd. Pencampwr Prydain ar wneud selsig oedd y beirniad, a derbyniodd Wavell ganmoliaeth uchel am ei gynnyrch. Mae'r dystysgrif a dderbyniodd yn hongian bellach ar wal y siop yn Llanrug, a mynd garw ar yr

amrywiaeth o selsig a phasteiod sydd ganddo ar werth.

**GWELER TUDALEN 11
AM WYBODAETH
YNGLYN Â
THREFNIADAU NEWYDD
WAVELL ROBERTS**



**ERYRI
ORGANIG**

LLANFAGLAN
Ffôn: C'fon 76905
Rhng 5 a 7 yr hwyr

CYFLENWYR CYNNYRCH GARDDIO ORGANIG

★ Gwrtaiith ★ Bwydydd Hylif

★ Offer atal Pla a Chwyn ★ Compost a mwy
Archebion Post 'Garddio llaw yn llaw â Natur'


CABS LLANRUG



C'fon 5951

Prisiau cystadleuol
Gwaith contract
pell ac agos

BETHEL SCAFFOLDING



BRYN Y CHWILOG, BETHEL
Ffôn: Portdinorwig (93) 670325

- ★ Sgaffaldiau ar gyfer jobsus
- ★ Prisiau cystadleuol
- ★ Ffoniwch i gael estimate yn rhad ac am ddim

PENISARWAUN

Mrs Ann Evans, Sycharth. Ffôn: 872407

Dydd Gweddi'r Chwiorydd: Bu gwasanaeth yn ôl yr arfer yng Nghapel Bosra, nos Fercher, 6 Mawrth, am 5.30 p.m., i ddathlu Dydd Gweddi Byd-eang y Chwiorydd. Llywyddwyd gan Miss Phyllis Ellis a rhoddwyd yr anerchiad gan Mrs Pat Larsen ac roedd Mrs Nansi Jones yn cyfeilio. Gwnaed cyfraniad i'r gwasanaeth gan nifer o chwiorydd yr ardal, Mrs Eirlys Jones, Mrs Beryl Griffiths, Mrs Bessie Williams, Mrs Mary Davies, Mrs Nansi Jones, Mrs Eluned Jones, Mrs Janice Jones, Mrs Nant Roberts, Mrs Nan Evans, Miss Mair Foulkes, Mrs Ann Ifans, Mrs Elizabeth Jones a Mrs Elinor Jones. Trefnwyd y gwasanaeth gan Mrs Pat Larsen. Diolchir i bawb am gefnogi'r dathlu pob blwyddyn fel hyn.

Ysgol Sul Bosra: Croesawyd dau aelod bach newydd i'r Ysgol Sul, sef Elin Mair a Siôn Llŷr, a buan iawn yr oeddynt wedi ymgartrefu gyda'r aelodau ffyddlon eraill. Trefnir bws i Gymanfa'r Annibynwyr a gynhelir yng Nghapel Jerusalem, Nant Peris. Gwneir casgliad i noddi addysg plentyn bach o Kenya.

Cynhelir Cymanfa'r Methodistiaid yng Nghapel Ebeneser, Caernarfon. Stori'r 'Bioden a Saccus' fydd thema'r plant. Trefnir bws i'r gymanfa hon hefyd.

Wedi'r geithio caled at y ddwy gymanfa bydd gemau pêl-droed yn cael eu trefnu ar gyfer yr hogia' ar y cyd ac aelodau Ysgol Sul Eglwys Santes Helen.

Pwyllgor Neuadd: Tynnwyd Clwb Cant Chwefror yn Sycharth, a'r enillwyr oedd: 1, Eurwyn Jones, Camelot; 2, Pat Larsen, Llygad yr Haul; 3, Ieuan Williams, Glyn Euron. Tynnir Clwb Cant Mawrth yn Sycharth. **DALIER SYLW:** Oherwydd yr Etholad Cyffredinol fe dynnir y Raffl Wanwyn ar nos Wener, Ebrill 10, yn Neuadd Santes Helen am 6.30 p.m. Bydd cystadlaethau Pasg i'r plant — tynnu llun, cerdyn addurno het Basg, addurno teisen Basg, Gardd Gethsemane ac addurno wŷ. Y beirniad fydd Mrs Annwen Owen, Llanrug. Cofiwch am y tocynnau raffl sydd ar werth gan nifer o gyfeillion am 50c y llyfr — gwobrau £25, £15 a £10. Bydd yr elw er budd y Neuadd a'r Ysgol Gymunedol hardd sydd yn tynnu llygaid pawb sy'n mynd drwy'r pentref.

Diolch: Dymuna Mrs Eileen Thomas, Bron y Gaer, ddiolch i bawb am y llu cardiau a galwadau ffôn a dderbyniodd tra bu yn cael triniaeth mewn ysbyty yn Lerpwl.

Dymuna Bet a Ron Hughes, Bryn Hyfryd, ddiolch i'r teulu, ffrindiau a chymdogion am y llu cardiau a rhoddion tuag at Ymchwil y Galon, wedi marwolaeth Mrs Maggie Rees Thomas. Gwnaed casgliad anrhydeddus o £268 a diolchir i bawb am eu haelioni.

Colled: Yn dawel yn ei chartref, 3 Llys y Gwynt, bu farw Mrs Percy Williams. Bydd colled fawr ar ei hôl, gan fod pawb yn ei chofio fel un oedd yn cefnogi popeth yn y pentref — Sefydliad y Merched, blaenor yng Nghapel Glasgoed, cystadlu yn yr eisteddfod bentref a'r carnifal, aelod blaenllaw o Glwb y Pensiynwyr, ac un a gyfrannodd yn helaeth at ennill y darian dair gwaith yn Eisteddfod Ffug yr Eco. Y tristwch mawr yw ein bod yn colli pileri ein cymdeithas ac nid hawdd yw llenwi'r bylchau. Cydymdeimlir yn ddwys iawn â Ken a Glenys Williams a'r teulu oll.

Yn dawel ym Mhlas Gwilym, Pen-y-groes, bu farw Mrs Althea Maddox, Wooden Cottage, yn 92 mlwydd oed. Cydymdeimlir â Mr Sam Maddox a'r teulu oll.

Gwellhad: Dymunir adferiad iechyd buan i Mrs Eluned Porter wedi ei arhosiad am ychydig ddyddiau yn Ysbyty Gwynedd. Y mae'r gwanwyn wrth y drws a gobeithio y bydd pawb sy'n sâl yn gwella pan ddaw'r gwanwyn.

Eisteddfoda: Llongyfarchiadau i bawb fu'n cystadlu mewn Eisteddfodau Cylch yr Urdd yn ddiweddar. Y mae eich ffyddlondeb i ddiwylliant Cymreig yn amhrisiadwy.

Eisteddfod Ryng-golegol: Llongyfarchiadau i Eurgain Haf ar ddod yn gyntaf am ysgrifennu cerdd, 'Barcud' yn yr Eisteddfod a gynhaliwyd ym Mhrifysgol Abertawe. Derbyniodd Eurgain gopi printiedig o'r gerdd. Dalier ati! Aberystwyth enillodd yr Eisteddfod a balch oeddym o glywed fod Mark Porter, Eurgain Haf a nifer o gyn-ddisgyblion Ysgol Brynrefail wedi cyfrannu'n helaeth at y llwyddiant.

Urdd Bentref
Chwefror 18: Daeth Mr Len Porter atom i ddangos casgliad helaeth o'r ffyn a wnaeth yn ystod ei oriau

hamdden. Diolchodd Daniel Fletcher iddo.

Chwefror 25: Dawnsio Gwerin gyda Judith Hardin, gyda'r bechgyn a'r genethod yn ymuno yn y dawnsio. Talodd Wenna y diolchiadau.

Mawrth 3: Daeth Anti Janice i ddangos sut i wneud crempogau. Bu Sioned yn helpu i wneud y cyteu a Wenna, Erin, Lynne, Eurig a Huw yn cael cyfle i wneud crempog yn eu tro. Ymunodd pawb arall ar y diwedd mewn gêm i droi'r grempog mewn padell. Diolch hefyd i Caren am ddod a rhai o'i thriciau hud i ddangos i'r aelodau.

Mawrth 10: Noson dan ofal Mrs Ann Thomas. Rhanwyd y plant yn ddau dîm a chawsant gwis cerddorol a chanu ambell i gân. Diolchodd Lynne am noson ddiddorol.

Llongyfarchiadau i'r parti dawnsio disgo am ddod yn ail yn yr Eisteddfod Cylch yn Ysgol Syr Hugh Owen. Diolch i Rhian am eu hyfforddi ac i Anti Judith am ofalu am y gwisgoedd.

Dyma weddill gweithgareddau'r tymor — **Mawrth 18:** Trip i'r Ganolfan Hamdden; **Mawrth 24:** Gwaith Llaw gyda Mrs Bronwen Jones; **Mawrth 31:** Mr Richard Jones, Bethel; **Ebrill 7:** Parti a Disgo i orffen y tymor.

Profedigaeth: Cydymdeimlir yn ddwys iawn â Mrs Elen Williams, 2 Bryntirion, ar golli ei chwaer o Fethel.

Dymuna Mrs Williams a'r teulu ddiolch am bob arwydd o gydymdeimlad yn eu profedigaeth o golli chwaer annwyl, Alewen, Boston House, Bethel. Diolchir hefyd am bob gofal a ddangoswyd tuag at Aelwen pan yn wael. Rhoddwyd yr arian at Hospis yn y Cartref.

Llongyfarchiadau i Tony Elliot a Dafydd Les am ysgrifennu Cân i Gymru a deledir ar Ebrill 8. Bydd wyth o ganeuon yn y gystadleuaeth a dymunir pob llwyddiant i'r gân 'Ble'r Aeth y Tân', y geiriau gan Tony a'r gerddoriaeth gan Dafydd.

Ysgol Tan y Coed: Yn dilyn cyfnod byr yn yr ysbyty, mae Mrs Shirley Roberts yn prysur wella, ac edrychwn ymlaen i'w chroesawu'n

ôl i'n plith ar ôl y Pasg. Mae pawb yn cofio at Mrs Roberts, ac yn y cyfamser mae Mrs Jennifer Roberts wrth y llyw. Gobeithio y bydd yn mwynhau ei chyfnod yma gyda ni.

Cynhaliwyd gwasanaeth Gŵyl Ddewi yn yr ysgol eto eleni ym mhresenoldeb holl staff yr ysgol. Gwnaed ffilm fideo o'r gwasanaeth, ac mae copi ar gael i'w fenthyca am 50c y noson, neu 75c i fwrw'r Sul. Mae'r arian yn mynd i gronfa'r ysgol.

Bu cryn brysurddeb yn yr Adran lau yn ddiweddar. Yn gyntaf aeth y plant hynaf i Stiwdio Barcud i gymryd rhan yn y rhaglen 'Brics a Bananas'. Braf iawn oedd eu gweld ar y teledu yn edrych mor hapus a chyfforddus o flaen y camerau.

Fel rhan o'u themâu presennol a'r rhai sydd i ddod, aeth Safon 1-4 i Fangor yn ddiweddar i weld arddangosfa am y Celtiaid a drefnwyd gan yr Archifdy. Treuliwyd bore diddorol iawn yn cael cipolwg ar ffordd o fyw ac arferion ein cyndeidiau. Diolch i'r Archifdy am eu gwahoddiad a'u croeso.

Treuliodd aelodau Clwb Llyfrau Sbondonics gyfnod difyr iawn yn Ysgol Brynrefail yn ddiweddar yn gweld 'Sioe Sbondonics' a drefnwyd ar eu cyfer a chafodd pawb amser da iawn yno.

Unwaith eto cafodd Safon 4 wahoddiad i Ysgol Brynrefail cyn trosglwyddo yno ym mis Medi nesaf. Y bwriad yw rhoi iddynt ragflas o weithgareddau ysgol uwchradd. Cafodd y plant gyfle i deithio i'r ysgol ar y bws, i symud o ddosbarth i ddosbarth ar ddiwedd cyfnodau gwarsi, i gael gwers chwaraeon yn y gampfa neu yn y pwll nofio, ac i brofi pryd o fwyd yn y Ffreutur. Diolch i Mr Grisedale a'i staff am y gwahoddiad, ac am eu gofal am y plant.

Cefnogwch
ein
Hysbysebwyd

GARTH MAELOG

PET CENTRE AND GROOMING SALON

Bwyd ac anghenion
Anifeiliaid anwes bychan
Pysgod dwr oer
Offer pysgota



Molchi, cribo a chlipio
cwn a chathod
o bob math
gan arbenigwr

STRYD FAWR, LLANBERIS 870840

E.W. Pritchard CENTRAL GARAGE Llanberis

Ffôn: 870202 a 870272

TREFNWYR ANGLADDAU
CEIR AR GYFER PRIODASAU
GWASANAETH TACSI


Aled Jones

Peiriannydd
Gwres Canolog
a Plymio

4 Bryn Eglwys
PENISARWAUN
Ffôn Llanberis
871047

Am bob math o
WYDR wedi'i
DORRI, DDANFON
NEU EI OSOD.
cysylltwch â

Barrys
GLASS



Camelot,
PENISARWAUN
Ffôn: Llanberis 871144

BETHEL

Geraint Elis, Cilgeran. Ffôn: Felinheli 670726

Genedigaeth: Llongyfarchiadau calonnog iawn i Susan (Bailey gynt) a Dewi, Carmel, ar enedigaeth Kevin ar Chwefror 21. Mae Christopher, Hayley ac Aaron wrth eu bodd efo eu cefnder newydd. Ond yn anffodus bydd rhaid i Kevin aros tipyn hwy cyn cael gweld ei daid eto. Mae Bill yn derbyn triniaeth yn Ysbyty Gyffredinol Watford, Llundain, yn dilyn damwain yn ei waith ar 1 Mawrth. Brysia wella Bill.

Ymddeol: Pob dymuniad da i Ann Mercer, Roslyn, Tanyffordd, ar ei ymddeoliad diweddar fel Sister yn Ysbyty Dewi Sant. Dros y blyneddau bu gan laweroedd o famau le i ddiolch am ofal hynod garedig Ann. Ond y diweddaraf a glywsom yw nad yw'r lle yn gallu gwneud hebddi, ac mae galw aml arni i fynd yn ôl i helpu.

Hefyd o Danyffordd, pob dymuniad da i Moi Williams, Llwyn Peris, ar ei ymddeoliad yntau o'i swydd ym mhwerdy Trawsfynydd. Mae'n dda gweld Moi a Merlys wedi setlo yn ein mysg.

Priodas Arian: Llongyfarchiadau i Lis ac Emllyn Hughes ar ddathlu eu priodas arian ganol y mis.

Newyddion o'r Ysgol: Llongyfarchiadau i Aled Hefin Roberts ar ddod yn bencampwr Gwynedd dan 9 oed mewn twrnament Tennis Byr, a gynhaliwyd yn Ysgol Friars, Bangor, yn ddiweddar. Dyma lun o Aled efo'i gwpan a'i fedal. Da iawn Aled.



Prynhawn Mawrth, 3 Mawrth, croesawyd aelodau Clwb Bro Bethel i'r Ysgol i ddathlu Gŵyl Ddewi. Yn dilyn cyngerdd gan y plant cafwyd sgwrs felys dros baned a chrempog wedi eu paratoi gan ddisgyblion blwyddyn 6 (Safon 4). Diolchwyd am y croeso gan Mr Trefor Williams.

Ddydd Mercher, 11 Mawrth, bu 50

o blant o'r Ysgol sy'n aelodau o Glwb Sbondonics yn Ysgol Brynrefail i fwynhau Sioe Sbondonics. Uchafbwynt y sioe i'r plant oedd cyfarfod Llion Williams — George yn 'C'mon Midffild'.

Y gŵr gwadd yn y noson a drefnwyd gan Gymdeithas Rhieni ac Athrawon yr Ysgol nos Lun, 10 Chwefror, oedd Mr Elfyn Pritchard, Ymgynghorydd Cynradd Gwynedd. Cafwyd sgwrs ddiddorol iawn ganddo ar ddarllen a phwysigrwyd cyflwyno llyfrau lliwgar deiniadol i blant yn gynnar iawn.

Cofiwch am y Ffair Wanwyn, nos lau, 9 Ebrill, yn yr Ysgol. Dewch am baned a sgwrs yn ogystal â chael cyfle i brynu oddi ar y stondinau. Os oes gennych gacennau neu unrhyw beth i'w werthu (ag eithrio dillad) dewch a nhw i'r Ysgol yn ystod y dydd. Croeso cynnes i bawb.

Gwellhad Buan: Dymunir gwellhad llwyr a buan i'r Cynghorydd Mr Sam Jones, Cefn, yn dilyn triniaeth lawfeddygol mewn ysbyty yng Nghaerdydd.

Cydymdeimlo: Ddydd Mawrth, 18 Chwefror, bu farw Miss Aelwen Jones, gynt o Boston House. Estynnwn ein cydymdeimlad â'r teulu yn eu profedigaeth.

Clwb 200 Y Neuadd Goffa: Enillwyd gwobrau y Clwb 200 am fis Chwefror oedd — £20: Mrs Margaret Bardsley, Windy Corner (217); £10: Mrs J. E. Elis, Y Ddôl (198); a £5 yr un i Mr D. Harrison, Bakhita (181); Mr J. Elwyn Hughes, Bryn Ogwen (157); Mr David Owen, 20 Cremlyn (17); Mrs Freda Jones, 3 Rhoslan (151); Mr Gwilym Jones, Y Ddôl Wen (13); Mrs Meinir Roberts, Gwynfryn (167); Mrs Ella Roberts, Y Rhos (216).

GWELYCOPTIO

Sgwrs rhwng dwy wraig yn y feddygfa.

'Mi rydw i'n disgwyl ers dwy flynedd i fynd i gael gneud fy nghoesa.'

'Taw a deud. Ond ma' 'na ffyrdd i gael mynd wyddost ti.'

'Sut felly?'

'Paid a chymryd arnat mai fi oedd yn deud, ond os yr ei di i ben yr Wyddfa a throi dy droed mi gei wely ar dy union, a helicopter i fynd a chdi yno mewn deng munud!'

LLWYDDIANT I'R ADRAN BENTREF



Rhai o aelodau Adran Bentref Bethel gyda'r darian i Adrannau Pentref dan 15 oed a enillwyd yn yr Eisteddfod.

Yr Urdd: Gyda neuadd yr ysgol yn orlawn cafwyd Noson Goffi hwyliog gyda phlant yr Adran yn diddanu'r gynulleidfa cyn iddynt gystadlu yn yr Eisteddfod Cylch. Da yw cael

cyhoeddi y bu'r canlynol yn cynrychioli'r Adran yn yr Eisteddfod Sir — Parti Adrodd dan 15, Eleri Robinson, Lowri Williams, Ellen Robinson, Bethan Fôn Jones, Dewi Lloyd Griffiths, Parti Dawnsio Gwerin dan 12 a Chôr yr Adran dan 12. Ceir canlyniadau yn y rhifyn nesaf. Llongyfarchiadau i'r Adran am ennill y darian i adrannau pentref dan 15 oed, yn yr Eisteddfod Cylch.

Llwyddiant hefyd ddaeth i dîm pêl-rwyd yr Adran yn ddiweddar gan ennill Adran Bentref Llangybi mewn gêm glôs iawn gyda sgôr o 12 i 11. Diolch i Miss Bethan Evans am hyfforddi'r genod a'u hebrwng i lawr i Langybi.

Bydd gweithgareddau'r flwyddyn yn diweddau ar Ebrill 2 (dalier sylw ar y dyddiad) gyda ymweliad â'r Ganolfan Chwaraeon yng Nghaerdydd. Bws yn cychwyn o'r Ysgol am 7.15 p.m.

CAEATHRO

Mrs Beryl Roberts, Erw Wen.
Ffôn: C'fon. 3536

Pwyllgor Cae Chwarae: Cynhelir y cyfarfod nesaf o'r pwyllgor ar nos Fercher, 1 Ebrill, am 7.30 o'r gloch yn llofa Bryngwna. Pe bai digon o gefnogaeth trefnir digwyddiadau'r Pasg — arwerthiant cist car a helfa wyau Pasg. Dewch yn llu.

Llecyn Chwarae Plant Lleiaf: Bydd cyfarfod cyhoeddus yn festri'r Capel am 7.30 o'r gloch, nos Fercher, 6 Mai, er mwyn trafod syniadau gan Cyngor Bwrdeistref Arfon ar gyfer llecyn chwarae i'r plant lleiaf, rhywle ar hyd yr hen lôn i'r Bontnewydd. **Gwasanaethau'r Capel:** Patrwm gwasanaethau ar gyfer y Suliau nesaf yw — Ebrill:

5: I. Jones-Owen; 12: Gweinidog; 19: dim gwasanaeth; 26: Gweinidog. Mai:

3: Y Gymanfa; 10: Gweinidog am 10 o'r gloch.

Llongyfarchiadau i Mr a Mrs P. Atkinson, Cefn Gof ar fod yn nain a thaid eto. Ganwyd mab i Margo a'i gŵr.

CEUNANT

Gohebydd: Gwenno Parri,
Morwel (Waunfawr 321)

Llongyfarchiadau i Cynrig Baxter, Pant Hyfryd, ar ddathlu ei ben-blwydd yn 21 oed ddiwedd mis Chwefror.

Dyweddiad: Llongyfarchiadau i Dewi Morris, Merddyn, ar ei ddyweddiad â Karen Elizabeth Turner o'r Waunfawr.

LLEUFER O. ac N. PRITCHARD CANOLFAN CARPEDI WAUNFAWR

Ar Agor
9-7pm
9-7pm Sadwrn
Argau
Sul a Mercher



Dewis eang o Welyau Sengl a Dwbl. Dewis eang o '3 Piece Suites'. Lleni 'Venetian' a Lleni 'Roler'. Gwaith Contract. 5,000 llathen sgwâr o garpedi mewn stoc — allwch chi fforddio prynu o batrymau?

WAUNFAWR 291



J.M.
JONES
A'I FEIBION

GWAITH
CERRIG
BEDDAU

Y SGWÂR, LLANRUG

Crefftwyr gwaith
llaw traddodiadol,
Cerrig o bob
math ar gael.

Ffôn:
Caernarfon 2898
(dydd)
Caernarfon 76285
(nos)

Croesawu Gweinidog: Pleser yw croesawu y Parchedig Olaf Davies yn Weinidog Sardis i'n plith yn Ninorwig. Mae bellach wedi cael cyfle i ymweld â'r aelodau yn eu cartrefi ac edrychir ymlaen am weinidogaeth hapus a bendithiol. Brodor o'r Garnant yn Nyffryn Aman yw Mr Davies ac wedi gweinidogaethu ym Mynachlog-ddu, Sir Benfro; Llanybydder; a cylchoedd Porthmadog a'r Ffôr yn Eifionydd. Croeso cynnes iddynt fel teulu.

Dathlu Pen-blwydd: Dymuniadau gorau i Mrs Mary Ellen Jones, Tyn y Fawngog, a fydd yn 94 oed ar 7 Ebrill. Mae Mrs Jones yn cadw'n weddol dda gyda gofal caredig ei mherch. Pen-blwydd hapus iddi oddi wrth pawb yn Ninorwig.

Dydd Gweddï Byd-eang y Chwiorydd: Cynhaliwyd yr uchod yn y Ganolfan ar brynhawn dydd Gwener, 6 Mawrth, o dan arweiniad Mrs Betty Peris Roberts. Cymerwyd rhan gan Katie Lloyd Hughes, Elisabeth Jones, Ellen Wyn Jones, Karen M. Jones, Margaret I. Jones, Irene Morris, Megan P. Morris, Maggie A. Fleming, Betty Roberts ac Eileen Thomas. Cafwyd yr Anerchiad gan Alice M. Griffith; yr organyddes oedd Dilys Williams a threfnwyd y rhaglen gan Irene Morris.

Paentio'r Ganolfan: Un o'r llu materion a drafodwyd gan bwyllgor y Ganolfan yn eu cyfarfod ar nos Fercher, 4 Mawrth, oedd peintio ystafell fawr y Ganolfan. Cytunwyd i symud ymlaen i wneud hyn. Penderfynwyd hefyd gynnig rhodd o £50 i Menter Fachwen fel cydnabyddiaeth o'r gwaith da a wnaed ganddynt yn y Ganolfan yn ddiweddar. Yn yr un cyfarfod cafwyd ar ddeall bod y clwb Snwcer am gynnig rhodd ariannol tebyg iddynt.

DINORWIG

Mr D. J. Thomas, 8 Maes Eilian



Y criw fu'n adnewyddu'r ganolfan yn ddiweddar.

Mynegwyd siom nad oedd y Cynghorwyr sir a dosbarth lleol heb adrodd yn ôl yn dilyn eu cyfarfod â rhai o drigolion y pentref yn ddiweddar a chytunwyd i ofyn am gyfarfod pellach gyda hwy. Cyfeiriwyd at y ffaith bod problem y dŵr ar wyneb y ffordd ar ben Gallt-y-foel yn dal i fod mor ddrwg ac erioed, serch y gwaith a wnaed y llynedd i geisio gwella'r sefyllfa. Er bod swyddog o'r cyngor sir wedi bod yn edrych ar y broblem dŵr wrth ymyl Capel Sardis a Ty'n Fawngog ymddengys nad oes gweithredu i wella'r sefyllfa. Rhaid dal i obeithio y gwelwn weithredu ar y mater hwn fel gyda gweddill y materion a drafodwyd.

Croeso: Croeso arbennig i Mr Dylan

Morris sydd wedi sicrhau tenantiaeth 9 Maes Eilian. Pleser o'r mwyaf bob amser yw croesawu Cymry ifanc i'n plith. Croeso Dylan.

Datblygiad i'w groesawu: Newyddion da yn wir yw clywed bod Cyngor Dosbarth Arfon yn mynd i guddio y gwaith carthffosiaeth sydd wedi bod hyd yma yn agored a pheri arogl drwg. Mae'r gwaith yn mynd rhagddo yn awr gyferbyn a Maes Eilian a Bro Elidir.

Eglwys St. Mair: Yn ystod mis Ebrill paratoi ar gyfer y Pasg a wneir — prif ŵyl y calendr Eglwysig, gan y disgwylir i bob Eglwyswr gymuno ar Sul y Pasg. Mae'r Pasg eleni ar ddydd Sul, 19 Ebrill ac fe gynhelir gwasanaeth o'r Cymun Bendigaid ar y bore hwnnw am 10 o'r gloch.

Croeso cynnes i bawb. Hefyd ar ddydd Gwener y Grogllith fe gynhelir gwasanaeth o'r Litani a Phregeth am 9.30 y bore. Yn y prynhawn am 2 fe drefnir gorymdaith gyda'r Groes trwy'r pentref gan ddiweddu o flaen yr Eglwys am 3, pryd y cynhelir gwasanaeth syml. Eto mae croeso i bawb ymuno yn yr orymdaith. Manteisir ar y cyfle i atgoffa pawb bod agnen dychwelyd y blychau cenhadol i'r Eglwys ar Sul y Blodau (12 Ebrill). Bydd yr arian a gesglir yn mynd at waith Cymorth Cristnogol a diolchir i bawb ymlaen llaw am eu cyfraniad.

Drama'r Pasg: Mae'r gwaith paratoi yn mynd rhagddo i lwyfanu drama'r Pasg dros ŵyl y Pasg. Ymdrech cydenwadol fydd hwn er mwyn adeiladu ar lwyddiant y gwasanaeth undeb a gynhaliwyd yn Eglwys St. Mair cyn y Nadolig. Gobeithir datgelu mwy am ddyddiad a lleoliad llwyfanu'r ddrama o fewn yr wythnosau nesaf.

Diwedd tymor: Daeth tymor y Gymdeithas Lenyddol Undebol i ben ar nos Fawrth, 3 Mawrth, pan ddathlwyd gŵyl Ddewi yng nghwmni Côr Alawon Menai. Diweddgo campus i raglen amrywiol a diddorol o weithgareddau a drefnwyd dros y gaeaf gan bwyllgor y Gymdeithas. Mae ein dyled fel pentrefwyr yn fawr i'r Gymdeithas yma ac mae'n anodd deall pam nad oes mwy o bobl yn mynychu'r nosweithiau difyr a drefnir ar ein cyfer. Beth amdani y gaeaf nesaf.

Diolch: Dymuna Nancy Terrey, gynt o Tan-y-fron, ddiolch am bob caredigrwydd a ddangoswyd tuag ati tra yn yr ysbyty ac ar ôl dod adref. **Pasg hapus a bendithiol iawn i bob un ohonoch.**

TAN Y COED

Annwen Parry, Ael y Bryn
Ffôn: 870276

Diolch: Dymuna Miss Nance Williams, Cartref (gynt), ddiolch am bob caredigrwydd tra bu yn yr ysbyty, hefyd i'r ymwelwyr sydd wedi bod yn ei gweld ar ôl dod adref. **Cartrefu:** Mae Jennie Hughes, Oerddwr, wedi ymgartrefu yn Hafod Elan a dymunwn pob hapusrwydd iddi yno.

Y Brifysgol Agored: Bu Mr a Mrs Emyr Jones, Tan-y-cae yn siarad ar Radio Cymru yn ddiweddar ar y

testun 'Open University'. Llongyfarchiadau i'r ddau a phob lwc i'r dyfodol.

Gwellhad buan yw'n dymuniad i rai o'r ardal sy'n wael a'r rhai sydd mewn cartrefi henoed.

BETWS GARMON

Llongyfarchiadau i deulu Bryn Gloch ar ennill gwobr am y gwersyll gwyliau gorau — da iawn yn wir. **Adref o'r ysbyty:** Rydym yn falch iawn fod Mrs Pat Coombs, Hafodty, wedi dod adref o'r ysbyty ar ôl triniaeth ar ei chalon yn Ysbyty Coleg y Brenin, Llundain, yn ddiweddar, ac yn gwella bob dydd.

DRAENOG



Mae plymar o Lanrug yn gwneud ei orau glas i chwyldroi byd busnes trwy gynnig tri math gwahanol o wasanaeth ar yr un pryd. Penderfynodd mai ym mro

Lieu y byddai'r ymgyrch yn cychwyn. Mewn ateb i alwad o Ben-y-groes, bu'n rhaid iddo gael benthgystol gŵr y tŷ i gyrraedd y siambar ble roedd y tanc dŵr oer. Yn anffodus, torrodd yr ystol tra roedd hanner y ffordd i'r siambar, ac wrth geisio arbed ei hun rhag disgyn, aeth ei draed yn syth trwy'r ffenestr. Mae bellach yn cynnig disgownt ar waith plymio, gwersi dringo a thrwsio ffenestri.

Gwesty Dolbadarn

LLANBERIS Ffôn: 870277



Am groeso cartrefol Cymreig bob amser
Aneuryn a Jeanette Jones a'r staff



THE SEIONT MANOR HOTEL

LLANRUG. Ffôn: 673366

GWESTY



HAMDDEN

Y safon uchaf am brisiau rhesymol iawn.
I glywed mwy Ffoniwch 673366 a gofynnwch am Maggie

Swper rhamantus i ddau
Cinio hamddenol
Sgwrs hefo ffrindiau dros baned o goffi
Brecwast, cinio neu swper busnes
Parti dathlu
Cinio Dydd Sul i'r teulu
Gwledd brodas fythgofiadwy
Sauna, nofio, ystafell ffitrwydd
Ymlacio ym mar y llyfrgell

CHWILOTA

Simdda i Eglwys Llanddeiniolen



Adroddais y mis diwethaf i mi dderbyn, ar fenthyg, gofnodion o Dreth y Tlodion am blwyf Llanddeiniolen. Rwy'n ddiolchgar i Mr a Mrs J. Ellis o Gaernarfon am gael cyfle i bori drwy'r holl gyfrifon — rhai'n ymwneud yn bennaf â'r blynyddoedd o 1834 ymlaen i 1851, er nad yw cofnodion pob blwyddyn mor llawn â'i gilydd.

Ym mhob rhestr ceir manylion am gostau wardeiniad y plwyf, ac y mae costau Evan Owen, Coed Bolyn am y flwyddyn 1834 yn ddiddorol iawn, oherwydd ym mis Mehefin y flwyddyn honno trefnodd i adeiladu simdda i eglwys Llanddeiniolen.

Nid yw'n berffaith glir a'i adeiladu simdda am y tro cyntaf a wnaethpwyd yn y flwyddyn honno, yntau a oedd yr hen simdda mewn cyflwr rhy ddrwg i'w hatgyweirio. P'run bynnag am hynny, mae'n anghyffredin iawn gweld cofnodion am y costau ynglŷn â'r adeiladau. Nis gwn ychwaith a oedd simdda yn eglwys eraill y plwyf cyfagos.

Yn ôl cofnodion Evan Owen roedd angen 200 o frics i adeiladu'r simdda, ar gost o saith swllt a chewechiniog. Talodd hefyd bumswllt am eu cludo i'r eglwys. Yn anffodus, nid yw'n nodi o ble y cafwyd y brics. Roedd calch yn costio dau swllt a grôt, gyda chlodiant o bumswllt am ddau begad o galch a grafel. Faint tybed oedd 'pegad'? John Jones o'r Fachell gafodd y gwaith o adeiladu'r simdda, ac fe gostiodd ei lafur chwe swllt a thair ceiniog. Bu'n rhaid talu swllt a chewechiniog arall am blastro'r simdda, ond nid oes sicrwydd pwy wnaeth y gwaith hwnnw.

Costiodd y cyfan bunt saith swllt a saith geiniog (tua £1.37). Mae'n debyg mai hon oedd y simdda olaf i'w hadeiladu, oherwydd o fewn rhyw wyth neu naw mlynedd wedyn, ailadeiladwyd eglwys Llanddeiniolen.

DYDD MAWRTH YNYD

Derbyniwyd cais anghyffredin gan Miss Dorothy M. Jones o Gaernarfon. Yn ei llythyr mae'n nodi'r arfer o ofyn ar y diwrnod hwn 'Ydi modryb yn dod acw 'leni?' sef y dull o holi a oedd gwraig y tŷ am wneud crempog. Ond mae hefyd yn sôn am air arall a ddefnyddid am

grempog — yn enwedig ym Môn. Tybed pa mor gyfarwydd yw trigolion bro'r Eco â'r term 'bara bwff'? Os oes cysylltiadau â Môn gennyh, holwch.

YR HEN YMLADDWYR

Gwilym Roberts, Fron Olau, Llanberis, oedd yr unig un i ymateb i'r erthygl ar yr hen ymladdwyr. Anfonodd llythyr diddorol yn sôn am y cymeriadau:

Trigai William Siôn ym Mryn Coch, y ffermdy uchaf ar lethrau Waen Cwm Brwynog. Ganwyd ef yn 1767, ac roedd yn fab i Siôn Dafydd a Mary William, Pen y Llyn, Nant Peris. Ei daid a'i nain o du ei dad oedd Dafydd Siôn ac Elizabeth Edward, Garreg Wen, Nant Peris; a'i daid a'i nain o du ei fam oedd William Bellis a Siân Griffith, Maes y Dref, Gwaen Gynfi.

Roedd yna ymladdwr arall o fri yn byw yn Waen Cwm Brwynog yn nechrau'r ganrif ddiwethaf; cyfaill a chymydog i Williams Siôn. Ei enw oedd William Morgan, Helfa Fain; genedigol o Lanfair-is-gaer. Daeth i'r ardal i fyw yn dilyn ei briodas â Jane Pierce, merch Helfa Fain.

Oddeutu 1816 cafodd y ddau dröedigaeth, a hwy yn bennaf oedd yn gyfrifol am sefydlu yr Ysgol Sul gyntaf yn Waen Cwm Brwynog. Yn ôl yr hanes, bu'r clod a enillodd y ddau fel ymladdwyr cyn eu tröedigaethau yn ddylanwad ar eraill i ymuno â'r Ysgol Sul. Ni bu sôn i'r un o'r ddau fod yn ymladd ar ôl hynny — dim ond â'r diafol!

Priododd John, mab William Siôn ag Alice, merch William Morgan, ac

ymgartrefu ym Mryn Coch. Yno y ganed iddynt chwech o blant. Daeth rhai o'r rheini yn enwog fel cantorion yn hytrach nac fel ymladdwyr, ac mae amryw o'u disgynyddion yn parhau i fyw yn yr ardal heddiw. Bu un ohonynt farw yn ddiweddar, wedi 54 mlynedd o wasanaeth yn organydd yng Nghapel Coch, Llanberis, sef Hugh Peris Pritchard.

Anfonodd Gwilym Roberts hefyd gofnod o briodas yn Llanrug yn 1734 rhwng David Luke ac Ann Roberts. Tybed ai y rhain oedd rhieni y ddau ymladdwr arall, sef Owen Dafydd Luke a'i frawd, Robert?

HANES TEULUOL

Gyda diolch i Mrs M. Roberts o Lanrug, a Mrs G. Owen o Bwllheli am ymateb o fewn diwrnod i

ddyddiad cyhoeddi yr Eco diwethaf! Yn dilyn y wybodaeth a gefais ganddynt, roedd yn bosibl olrhain teulu John Owen Williams o fewn ffiniau plwyf Llanddeiniolen. Ei rieni oedd Owen Williams, saer coed neu saer eirch, genedigol o Lanbeblig, a Rebecca Rowlands, merch John ac Ann Rowlands o Fryn Teg, Llanddeiniolen. Fe'i bedyddiwyd yng Nghapel Rhwng-y-ddau-gae (ai capel Ysgoldy oedd hwn?) yn 1826. Roedd John Rowland yn fab i Rowland Abraham ac Elin, hefyd o'r Bryn Teg, ac fe'i bedyddiwyd yn eglwys Llanddeiniolen yn Mai 1791. Ble mae Bryn Teg?

Cofiwch anfon unrhyw sylw neu ymateb i **Dafydd Whiteside Thomas, Bron-y-nant, Llanrug (Ffôn: Caernarfon 3515).**

CWM-Y-GLO

Mrs Iris Rowlands, Glanrafon. Ffôn: 872275

Clwb Pobl y Cwm: Nid ym aml y bydd Mr Llew Hughes, y llywydd, yn cael y frain o estyn croeso i wr neu wraig wadd a fagwyd yn y Cwm, ond dyna fu'r hanes ar 20 Chwefror, pan fu'n bleser ganddo groesawu Mr Cecil Williams, Hafan Elan, Llanrug, i'r Clwb.

O gofio mai'r diweddar Hugh Parry Williams, y barbwr ffraeth, oedd tad Cecil Williams nid rhyfedd iddo yntau etifeddu llawer o hiwmor ei dad, ac yn wir cafwyd pnawn difyr dros ben yn sôn am y troeon trwstan, y cymeriadau ffraeth a rhai digwyddiadau yn y pentref gynt, gyda'r aelodau a fagwyd yn y Cwm yn porthil! Clywsom beth o waith barddonol ei dad yn ogystal, yn arbennig ei gerdd i'r bechgyn a alwyd i'r fyddin yn 1939-45. Diolch i Mr Williams am bnawn arbennig iawn.

Rhoddyd y baned a'r raffl gan Mrs E. M. Jones a Mrs G. Pritchard ac enillydd y raffl oedd Mr Cecil Williams.

Ar 5 Mawrth cafwyd egwyl o Bingo gyda Mrs Enid Price yn galw. Gofalwyd am y baned a'r raffl gan Mrs K. Watkins a Mrs G. Chick a Mrs E. M. Jones oedd enillydd y raffl. **Llongyfarchiadau** i David, 2 Tan-y-bryn, ar gyrraedd ei ben-blwydd yn 18 oed.

Diolch: Dymuna Tony Jones, Isfryn, ddiolch yn fawr i bawb am y cardiau, anrhegion a galwadau ffôn tra yn yr ysbyty yn ddiweddar.

Cylch Ti a Fi: Os oes diddordeb gan rhywun i ymuno gyda'r Cylch cysyllter â Judith ar 870282.

Ysgol Gymuned Cwm y Glo: Rhwng sgwennu i Eco'r Wyddfa ac i'r Glorian yn Llangefni a cheisio cael hwnnw i'w wely, mae'r mis bron i gyd yn mynd i bapurau bro! Ond dyna ni, mae nhw werth y drafferth yn tydyn?

Beth sydd wedi bod yn mynd ymlaen yma y mis dwythaf 'ma? Pob math o bethau difyr a diddorol.

Yn gyntaf, croesawn Miss Wendy Smith o Lanrug atom. Bydd hi'n treulio ei hamser yn Nosbarth y Babanod hefo Mrs Rita Williams a'r criw. Gobeithio y bydd Wendy yn hapus iawn yma ac yn mwynhau ei hun. (Cewch fwy o'i hanes y tro nesaf — dim ond ddoe y daeth hi yma!)

Braf oedd gweld rhai o blant yr Adran lau yn ymddangos ar raglen

deledu o'r enw 'Sdwnsh' ddiwedd Chwefror. (Enw ofnadwy ar raglen, yntê. *Children's Hour* ac *Uncle Mac* ydw i yn eu cofio. Ond mae hynny yn dangos fy oed felly gwell i mi beidio mynd yn ôl i'r gorffennol yn rhy bell!)

Bu PC Thomas o Lanrug (o Sir Fôn yn wreiddiol medda fo — mae hogia 'Gwlad y Medra' ym mhobman) yma yn siarad am ddiogelwch y ffordd, a sut i warchod beiciau rhag dwylo blewog. Cafodd pawb fudd mawr o'i sgwrs a sawl un wedi prynu pin arbennig i farcio eu beiciau. Felly cadwed y drwgweithredwyr draw o'r Cwm.

Wedi sôn am un raglen deledu, dyma fentro crybwyll un arall efo enw gwreiddiol iawn — 'Brics a Bananas'. Cafodd unarddeg o'r plant fynd i'r stiwdio i weld honno yn cael ei pharatoi a byddant yn ymddangos ar y sgrîn fach ymhenn rhyw wythnos.

Fel rhan o'u gwaith bu Dosbarth y Babanod yn ymweld â'r Eglwys yn y pentref. Diolch yn fawr i Mr a Mrs Roberts, Bod Gwilym a Mrs Orritt am helpu efo'r trefniadau. Dysgodd pawb lawer iawn.

Cafodd Mrs Alwen Jones ddiwrnod yn Harlech — nid i siopa ond i weithio'n galed ar gwrs yn ymwneud a Thecstiliau a Bwyd. Os gwelwch chi hi mewn ffrog newydd fe fyddwch yn deall pam!

Cafodd yr Adran lau bnawn bendigedig yn gwneud crempogau — un i bawb yn yr ysgol a dwy i'r athrawesau — a dim ond hanner un i mi gan fy mod ar ddeiet! Wir yr. Gofynnwch i Mrs Orritt ac fe ddywedith hi fy mod i yn bwyta llai o lawer y dyddiau yma.

Erbyn y bydd y rhifyn yma o'r Eco wedi ymddangos bydd ein noson o chwarae Bingo wedi bod. Erbyn hynny byddwn yn meddwl sut i wario'r pres ar ran y plant. Diolch i bawb sydd wedi'n helpu yn barod wrth brynu tocynnau raffl, a ballu. Diolch o galon am bob cefnogaeth.

Am y tro, fe ddymunwn yn dda i bawb a chofiwch gadw draw oddi wrth y wyau Pasg neu mi fydd rhaid i bawb lacio'r belt!

Hwyl fawr ac yn iach a dibechod y boch.

**Cefnogwch ein
Hysbysebwy**

Am waith
PEINTIO, ADDURNO
a mân atgyweirio oddi mewn
neu tu allan am bris rhesymol
cysyllter ag

ERIC JONES

17 BRYN TIRION

PENISARWAUN

Ffôn: LLANBERIS 872421

ECO'R IFANC

Gan Bryn Crawia
Ffion Orwig a
Lowri Angharad


I'r rhai hŷn yn eich plith dyma bosau i'w datrys. Pob lwc!

Gogledd Orllewin

Gogledd

Gogledd Ddwyrain

G
o
r
l
l
e
w
i
n



De Orllewin

De

De Ddwyrain

GOMER: Glywaist ti am y crwban ar yr M4?
HUW: Beth oedd y crwban yn ei wneud ar y draffordd?
GOMER: Chwarter milltir yr awr!

LAL: Sut mae'n bosib i un person wneud cymaint o gamgymeriadau mewn un diwrnod?
SAL: Rydw i wedi codi ben bore heddiw!

Pam fod y dyn ag un llaw ganddo wedi croesi'r ffordd?
I fynd i'r siop ail-law!

I beth mae croen mochyn yn dda?
I ddal y mochyn efo'i gilydd!

Cnoc, cnoc!
Pwy sy'n 'na?
Scini
Scini pwy?
Scini 'm syniad!

ERNIE: Beth yw hoff greision Andrew Lloyd Webber?
ERIC: Quavers?

Beth sy'n gwlychu wrth sychu?
Tywell!!

Beth sy'n lân pan mae o'n ddu ac yn fudr pan mae'n wyn?
Bwrdd du!!

MAM: Wyt ti wedi bod yn y parti??
INA: Naddo. Roedd y cerdyn gwahoddiad yn dweud 'rhwyng tri a chwech' ac rydw i yn saith!

Darganfyddwch yr anifeiliaid canlynol yn y sgwâr:

dafad ci
mochyn cath
wiwer draenog
ceffyl gafr
cwningen buwch

C	W	N	I	NG	E	N	D
I	A	G	FF	M	D	R	CH
FF	W	T	S	C	A	E	W
W	Y	DD	H	E	F	C	U
I	G	F	N	E	A	E	B
W	M	O	CH	Y	N	FF	W
E	G	A	F	R	B	Y	I
R	D	A	F	A	D	L	W

AM DEITHIAU CYFFORDDUS, DIOGEL A
RHAD YM MHRYDAIN A THRAMOR ...



**BYSIAU ARFON
LLANRUG**

(Eric Morris)

Ffôn: Caernarfon 5175 77858

CHIROPODIST
Gwasanaeth yn
eich Cartref

E. Ll. Parry

M.S.S.Ch., M.B.Ch.A.
57 Glanffynnon

LLANRUG

Ffôn:

**Caernarfon
5754**

Mae lleidr wedi torri i mewn i siop y cigydd. Dim ond chi a'i gwelodd. Tynnwch ei lun ar unwaith ar y grid i'r heddlu.

Gyda phensil dilynwch y cyfarwyddiadau.

Mae pob un o'r sgwarau bach yn cynrychioli 100 metr.

I symud i'r dde neu i'r dwyrain, ewch ar hyd llinellau'r sgwâr.

I symud i'r de-ddwyrain, gogledd-ddwyrain a'r de-orllewin, ewch o gornel i gornel.

CYFARWYDDIADAU

O'r smotyn du symudwch
100 metr i'r dde;
100 metr i'r de-ddwyrain;
100 metr i'r dwyrain;
100 metr i'r de-ddwyrain;
200 metr i'r dde.

Yn ôl i'r smotyn du eto a symud fel hyn —

200 metr i'r dwyrain;
100 metr i'r
gogledd-ddwyrain;
100 metr i'r dwyrain;
100 metr i'r de-ddwyrain;
100 metr i'r dde;
100 metr i'r de-orllewin;
100 metr i'r de-ddwyrain;
100 metr i'r dwyrain.

Am Wasanaeth
Fframio Lluniau
Tystysgrifau
Tapestri
am brislau rhesymol

ELWYN PRITCHARD

Parc Padarn, Llanberis
Ar agor Llun - Gwener
10.00 - 3.30
I gysylltu tu allan i'r oriau
hyn ffoniwch
Llanberis 870922
neu Bangor 351427

Dysgwch yrru'r car gydag

Y.Y.O. YSGOL YRRU OFALUS

- * Gwasanaeth 7 diwrnod
- * O ddrws i ddrws
- * Control Deuol



PRITCHARD
43 Glanffynnon
LLANRUG
CAERNARFON 5112
Cymeradwyir gan yr Adran
Drafnidiaeth

CARTREF HENOED



Caernarfon
(0286) 4652

BRYN

(B & K Williams)

Hen Ysgol
Glanmoelyn

LLANRUG

Ffôn 77482 (dydd)
870793 (nos)

Gwneuthurwyr Ffenestri,
Drysau, Grisau neu
unrhyw fath o gynnyrch
coed. Y coed meddal wedi
derbyn triniaeth arbennig i
wneud iddynt bara.

ROYAL VICTORIA HOTEL

LLANBERIS 870149

- ★ Bwyd da ★ Cwrw da
- ★ Cwmni da



CARPEDI GLÂN!

Mynnwch driniaeth

STIMVAK

gyda'r offer mwyaf
modern, diweddaraf, sydd
ar gael. Am fanylion
cysylltwch â

**TEGID
PRITCHARD**
CANOLFAN CARPEDI
WAUNFAWR 291
Hefyd ail-osod carpedi

Y STORFA LLANRUG

(Richard a Meirwen
Williams)

Ffôn: Caernarfon 2790

Ar agor bob dydd
o'r wythnos at eich
gwasanaeth

Nid oes unrhyw dâl am
ddanfôn ordor i'ch cartref
yn ardal Llanrug.



I DDYSGU DREIFIO EFO STAN

(Ysgol Yrru Rhiwen)
Ffoniwch
Bangor
364143

GERAINT OWEN

Gosodwr
carpedi a phob
math o loriau

Cil-y-Mynydd WAUNFAWR

Ffôn:
Waunfawr 552



Llanberis 870203

Ar agor trwy'r flwyddyn ar
gyfer priodasau, dathliadau
bedydd, pen-blwydd a phob
achlysur arbennig arall.
Gallwn drefnu adloniant -
disgo a.y.y.b.
Bwydlen Bar a Restaurant
Cinio Dydd Sul

IEUAN WILLIAMS

Glanffrwd
DEINIOLEN

Llanberis 870484

- ★ Bysiau o 12 i 53 sedd
- ★ Teithiau Lleol a Thramor
- ★ Gwaith Contract
- ★ Telerau arbennig i
bensinywyr, myfyrwyr a
phlant ysgol

MODURDY PLAS

BACH

CAEATHRO

Ffôn: Caernarfon 2072
Gwerthu, Trwsio
Trin Cyrff
H.P. ar gael

OSMOND SHAW DEINIOLEN



- GWERTHU
- TRWSIO
- ★ Teledu
- ★ Fideo
- ★ Offer Trydan

Gwasanaeth
Ffôn 24 awr
LLANBERIS 870545

W.J. GRIFFITH

PLYMAR A GOSODWR
GWRES CANOLOG
PANT TIRION, LLANRUG
Ffôn: Caernarfon 673248

Gosodwyr
Nwy
Cofrestedig
Corgi



Aelod o'r
Association of
Plumbing and
Mechanical
Services
Contractors

Dim un dasg rhy fychan
Dim un dasg rhy fawr

CRIB COCH

Y Sgwâr, Llanrug
Ffôn: Caernarfon
76772

TRIN GWALLT I
BAWB O'R TEULU
GAN JEN

Ffoniwch neu galwch
i drefnu amser

I drin a thrwsio
pob math o
beiriannau gwnïo

MENAI SEWING MACHINE CENTRE

40 Stryd Fawr
PORTHAETHWY
Ffôn: (93) 714043
neu

Caernarfon 4520
edau, nodwyddau
ac ati mewn stoc

CHI AC

EURO/DPC

EUROPEAN DIAGNOSTIC PRODUCTS

ATODIAD HYSBYSEBU

Pan glywodd Dafydd Wigley fod hen gyfaill iddo, Dr Andrew Moore, yn cwyno nad oedd lle i'w gwmni gynhyrchu offer meddygol ehangu yn Rhydychen gwelodd Aelod Seneddol Arfon ei gyfle i ganu clodydd Glynrhonwy, Llanberis. Aeth mor bell â galw ym mhencadlys y cwmni yn Los Angeles, California, i ddwyn perswad.

O'r dechreuad syml hwn, gyda chymorth y WDA, Cyngor Arfon a Chyngor Gwynedd denwyd i'r ardal gwmni a all wyrddroi rhagolygon economaidd y cylch.

Pa ffactorau eraill a'u denodd yma gofynnodd *Eco'r Wyddfa* i Dr Graham Groom, Rheolwr Gweithgareddau EURO/DPC mewn cyfweiliad arbennig. Yr atebion calonogol oedd gweithlu parod, digon o le i ehangu ac agosatrwydd Llanberis i'w marchnadoedd rhyngwladol. Ond onid yw Llanberis yn bell o bob man, gofynnodd. Na, meddai Dr Groom. I gwmni fydd yn allforio'r rhan fwyaf o'i gynnyrch un o'r prif atyniadau yw agosatrwydd yr ardal i Faes Awyr Rhyngwladol Manceinion ar hyd yr A55 newydd, yn arbennig ar ôl agor Twneil Conwy. 'Mae llawer haws allforio o Fanceinion na Heathrow', meddai.

Cwmni Americanaidd ydyw mam-gwmni EURO/DPC. Dechreuodd yn Los Angeles, California, yn 1971 fel cwmni un dyn, yna cwmni teuluol cyn tyfu'n gwmni cyhoeddus rhyngwladol sy'n gwerthu ei gynnyrch ar draws y byd. Sefydlwyd y gangen Brydeinig yn Witney, Rhydychen, yn 1986 gyda staff o wyth. A hwythau ar fin symud eu pencadlys Ewropeaidd i Lanberis, mae'r cwmni'n gobeithio cyflogi 300 o fewn dwy flynedd ac yn Llanberis y cynhyrchir dros 30% o holl gynnyrch y cwmni dros y byd.

Offer meddygol ydy cynnyrch y cwmni, a rhoddir pwyslais mawr ar ddyfeisio pethau newydd. Er enghraifft datblygwyd offer canfod cancr y fron

HANES Y CWMNI

ochr yn ochr â'r *Cancer Research Campaign* yn Nottingham gan gwblhau'r holl brofion angenrheidiol mewn llai nag wyth mis. Cyn ymuno ag EURO/DPC roedd Dr Graham Groom, y Rheolwr Gweithredu, yn aelod o dim arloesol Tenovus, Caerdydd, a wnaeth gymaint o ymchwil i ddatrys cancr. Mae'n frodor o'r brifddinas a theulu ei wraig y hanner o ardal chwarel Blaenau Ffestiniog. Fe ddylai Dr Groom deimlo'n gartrefol iawn felly yn hen chwarel Glynrhonwy!

Defnyddir yr offer a gynhyrchir yn Llanberis mewn labordai ysbyty a labordai milfeddygol ar draws y byd. Yn ogystal â phroffion cancr bydd offer i archwilio anffrwythlonedd, clefydau'r thyroid, clefyd siwgr, clefydau heintus alergedd, a phroffion ar gyffuriau.

Bydd ffatri newydd Glynrhonwy yn 100,000 o droedfeddi sgwâr ac yn cynnwys canolfan ymchwil a dosbarthu yn ogystal â chynhyrchu'r offer ei hun. Mae Graham Groom yn edrych ymlaen yn obeithiol i'r dyfodol 'Rydym yn bwriadu llwyddo a golyga hynny y bydd yr ardal yn llwyddo gyda ni'. Enghraifft o'r llwyddiant hwn yw datblygiad Glynrhonwy ers i gynllun Parc Gwyliau Leading Leisure fynd i'r gwellt.

Mae EURO/DPC yn gweithio law yn llaw â Chyngor Arfon, Cyngor Gwynedd, y WDA a Choleg y Brifysgol Bangor i ddatblygu'r holl ardal fel Parc Gwyddoniaeth. Gobeithir denu cymorth sylweddol Ewropeaidd i ddatblygu 150 erw o'r hen chwarel gan ddod a mwy o ddiwydiant a mwy o swyddi i Lanberis. Ac yn wahanol i'r hen ddiwydiannau trwm a adawodd eu creithiau ar dirwedd y dyffryn diwydiannau 'high-tech', glân, cyfeillgar i'r amgylchedd a ddenir i'r fro y tro hwn.



Ffatri newydd EURO/DPC yng Nglynrhonwy ac enghreifftiau o rai o'r offer meddygol a gynhyrchir ganddynt.

EURO/DPC a'r Gymuned Leol

Pan ddywed EURO/DPC eu bod yn awyddus i helpu'r gymuned, mae nhw o ddifrif. 'Ni allwn bob amser gydfynd â cheisiadau a anfonir atom ond rydym bob amser yn barod i ystyried awgrymiadau.'

Mae Ysgol Brynrefail, Llanrug, eisoes wedi sefydlu cyswllt ag EURO/DPC gan weld cyfle i roi profiad gwaith i'w disgyblion, heb sôn am yrfa addawol ar ôl gadael yr ysgol.

'Ar hyn o bryd rydym yn ddieithr i'n gilydd,' medd datganiad i'r fro a baratowyd gan gwmni EURO/DPC. 'Dydych chi ddim yn ein hadnabod ni a ninnau'n ansicr ynghylch beth sy'n ein haros pan gyrhaeddwn yna.'

Ond mae'r cwmni'n awyddus iawn i uniaethu ei hun â'r ardal a'r pethau sy'n agos at ein calon. 'Gobeithiwn allu meithrin perthynas dda gyda'n cymdogion yng Nglynrhonwy ac rydym yn awyddus i gefnogi syniadau lle gallwn hyrwyddo buddiannau'r ardal drwy ddefnydd pwrpasol o'n doniau, ein dylanwad, ein cysylltiadau a'n cyllid.'


Bydd y cwmni'n cynnig swyddi newydd yn y ffatri ei hun ac hefyd hwb i fusnesau eraill y cylch drwy brynu nwyddau a gwasanaethau. A bydd y cyflogau a delir i'w gweithwyr yn ei dro'n canfod ei ffordd i'r economi leol. Medd y cwmni, 'Mae dyfodiad EURO/DPC yn drobwynt pwysig a chyffrous yn hanes yr ardal hon. Ond erfyniwn arnoch i beidio â disgwyl gwyrthiau dros nos nac i ni allu cyflenwi'r cyfan ar ein pennau ein hunain. Bydd ein presenoldeb yn denu eraill i'r ardal fel y caiff effaith casge eira ar greu gwaith a fydd yn gofyn am lu o wahanol sgiliau. Bydd llwyddiant EURO/DPC yma yn ei gartref newydd yn arwain, naill ai'n uniongyrchol neu'n anuniongyrchol, at ddiogelu dyfodol a

ffyniant yr ardal. Bydd hynny yn ei dro yn golygu na fydd yn rhaid i bobol ifanc adael yr ardal i chwilio am sicrwydd dyfodol a gwaith — a bydd hynny wrth gwrs yn diogelu gwreiddiau a thraddodiadau'r gymdeithas leol.'

Pwysleisia'r cwmni eu bod yn ymwybodol iawn o werth gwarchod yr amgylchedd a'u bod wedi dangos arwyddion o'u gofal yn y modd y codwyd eu ffatri newydd hardd. 'O'n cwmmpas y mae tir coediog helaeth sy'n gofyn sylw ac mae posibilrwydd y gallwn gydweithio yma.' Ychwanegant, 'Mae'r rheolwyr yn falch o'r traddodiadau a ddaeth eisoes yn rhan o'r cwmni — ansawdd da yw ein nod bob amser. Rydym wedi cael yr enw o fod yn weithwyr caled ond eto'n gyfeillgar a pharod i wrando — y tu mewn i'r cwmni a'r tu allan — ar ofnion y gymuned leol drwy ffurfio cysylltiadau ag ysgolion, mudiadau elusennol a busnesau lleol eraill pa le bynnag y bo modd gwneud hynny.'

BS5750 = ANSAWDD

Na, nid icweshyn wyddonol ond tystiolaeth o ansawdd da yw'r Safon Prydeinig BS5750, ac fe'i dyfarnwyd i EURO/DPC am ansawdd uchel pob dim a wneir yn eu ffatrioedd. Mae'n golygu llawer mwy na chynnyrch da. Cyn y rhoddir y sêl bendith rhyngwladol hwn i unrhyw gwmni mae'r archwiliwyr yn edrych hefyd ar bethau fel safon y storffeydd, yr amgylchiadau gwaith, a phob dim sy'n digwydd yn y ffatri. Fel y dywed Dr Graham Groom, 'Pan mae'n gweithwyr yn cynhyrchu deunydd o'r radd flaenaf nid gwneud hynny i blesio'r bô, neu'r fforman y maent ond i blesio'r cwsmer. Y fam sy'n ceisio sicrwydd am iechyd ei babi, y prawf beichiogi, y person oedranus yn y feddygfa — mae'r rhain oll yn dibynnu ar ansawdd ein cynnyrch a does wîw inni eu gadael i lawr.'



HYSBYSEBU SWYDDI

Pan agor EURO/DPC eu ffatri newydd yn Llanberis creir mwy na 200 o swyddi newydd. Mae syniad ar led mai dim ond swyddi i wyddonwyr fydd y rhain ond pwysleisia Dr Graham Groom y bydd gwaith o bob math yn cael ei hysbysebu cyn bo hir. Yn ogystal â gwyddonwyr cyflogir pobol asembli, pobol cadw stoc, staff cynnal a chadw, dosbarthu a gweinyddu — pob math ar swydd a ddisgwyliad mewn ffatri fawr.

Ond pryd y byddwch chi'n hysbysebu'r swyddi, gofynnodd yr *Eco* i Dr Groom. 'Mae'n dibynnu pryd byddwn ni'n gorffen adeiladu'r ffatri,' meddai, 'mi fyddwn ni'n gwybod y dyddiad yn reit fuan. Os bydd hynny ym Mehefin mi fyddwn yn hysbysebu swyddi ym mis Mai. Byddai oedi hefo gorffen y ffatri yn naturiol yn golygu oedi cyfatebol cyn hysbysebu'r swyddi.'



Eglurodd Dr Graham Groom fod nifer eisoes wedi 'sgrifennu at EURO/DPC yn gofyn am waith, 'Does dim raid i'r rheini ymgeisio eto pan gyhoeddir yr hysbysebion gan fod pob cais wedi ei gofnodi'n ofalus i gael sylw ar yr adeg priodol.'

Mae Dr Groom yn hapus iawn gyda gweithlu'r ardal, 'Lle mae angen hyfforddi, mae'r Asiantaeth Hyfforddi, TARGED, yn ein helpu i sefydlu cyrsiau priodol yng ngholegau'r cylch, yn cynnwys Coleg y Brifysgol Bangor.'



(Chwith): Cyflwyno Tystysgrif BS5750 gan Mr Reginald Spencer, o'r National Accreditation Board, i Dr Allan Swift, Rheolwr Ansawdd EURO/DPC. Uchod (chwith) mae Dr Graham Groom Rheolwr Gweithredu, ac ar y dde Dr Andrew Moore, Rheolwr Cyffredinol y cwmni.

ENWCH Y TYWYDD YN Y LLUNIAU AC YN EU LLIWIO



**DYMA GERDDI AM Y TYWYDD GAN BLANT
YSGOL TAN-Y-COED, PENISARWAUN.**
Da iawn chi blant! Os oes ganddoch chi gerddi
neu stori anfonwn nhw i mewn.

CYMYLAU

Cymylau mawr du
Sydd i fyny fry
Yn y nen
Uwch fy mhen.

JOE HILL, 6 oed

YR ENFYS

Mae enfys
Yn y nen
Yn lliwgar
Uwch fy mhen

HELEDD, 5 oed

Y DYN EIRA

Dyn eira tew
Ddim yn hoffi rhew
Dwi yn dal
Dwi'n fwy na'r wal
Mae eira gwyn
Ar y bryn.

JENNY MORRIS, 6 oed

EIRA MÂN, EIRA MAWR

Un bore deffrais ac agor y llenni a gwelais bob man
yn wyn. Doedd yna ddim siw na miw yr unig swm oedd
i glywed oedd y gwynt yn chwythu'r coed, ond yn y
strydoedd doedd yna ddim siw na miw.

Roedd yr eira yn disgyn yn dawel iawn ac yn yr ardd
roedd ci fi yn edrych yn syn ar y llawr gwyn ac roedd
y Robin Goch yn canu'n braf yn y goeden bythwyrdd
yn yr ardd. Wedyn aeth yn ôl i'r nyth yn y goeden
bythwyrdd yn yr ardd. Rhedais allan i'r ardd a gwneud
Dyn Eira yn yr ardd. Roeddwn wrth fy modd.

JOE HILL, 6 oed

Y DYN EIRA

Maen gas gas gen i'r haul
Sydd yn meirioli
Ac yn toddi
Pan fydd y dydd
Yn dod i ben.

CENIN, 5 oed

GADAWYD FI AR FY MHEN FY HUN

Aeth y Parchedig Idris Thomas, Trefor, i'w hen gynefin i sgwrsio â Miss Elizabeth Thomas, yr unig Gymraes sydd ar ôl bellach ym Mhen Draw, cymdogaeth mewn un rhan o bentref Dinorwig.

Dydd Gŵyl yr Holl Saint oedd hi pan alwais i weld Lizzie Thomas yn ei chartref, Llidiart y Clo yn Ninorwig.

Derbyn croeso cynnes ganddi hi a'i chath, Dil, sydd yn gwmni mawr iddi ar ei haelwyd. Fe aned Lizzie Thomas yn Llain Fawr, Deiniolen, ar 26 Mai 1912. Yn bump oed symudodd efo'i rhieni i Goed Poeth ger Wrecsam (ei thad wedi mynd i weithio i'r gwaith glo), a mynychodd Ysgol Pen Gelli, Coed Poeth. Roedd chwaer i'w thad, sef Mary, yn athrawes yn y fro ac yn briod â gweinidog gyda'r Bedyddwyr. Daeth yn ôl i Ben Draw, Dinorwig, pan oedd yn 8 oed a byw yn Nhŷ Newydd Cottage; mynychodd Ysgol Dinorwig nes oedd yn 15 oed, symudodd efo'i rhieni i'w chartref presennol, sef Llidiart y Clo. Y teulu blaenorol yn y tŷ oedd teulu'r diweddar Barchedig Herbert Thomas, Llannor. Bu'n gweithio yng nghegin Ysgol Dinorwig am rai blynyddoedd, a daeth ei hoffter o blant yn amlwg yno. Bellach dim ond Lizzie Thomas sydd ar ôl ym Mhen Draw, Dinorwig, yr unig Gymraes yno. Aeth y Gymraes olaf heblaw hi oddi yno bymtheng mlynedd a mwy yn ôl.

PEN DRAW

Cymdogaeth yw Pen Draw o fewn pentref Dinorwig ac fel y dynoda'r enw ni ellir mynd ymlaen oddi yno ond ar droed trwy'r goedwig i Lanberis. Ni ellir cael cymdogaeth yn nes at Chwael Dinorwig; mae'n swatio gerllaw'r tomennydd llechi llonydd. Pan oedd Chwael Dinorwig yn ei hanterth roedd sŵn prysurdeb y gwaith i'w glywed yn feunyddiol, ond bellach daeth tawelwch naturiol yn lle sŵn cŵn a morthwyl, corn y gwaith, y wagenni a'r trên bach. Pan ddaeth Lizzie Thomas o Wrecsam i Ben Draw ar gychwyn y dau-ddegau, Cymry Cymraeg oedd yn byw ym mhob tŷ, a buddiol yw nodi enwau'r tai — Hafoty, Bron Elidir, Bron Fuchas, 'Tragwyddol Stores' (enw'r chwaelwyr ar dŷ a siop sydd bellach wedi



diflannu o dan un o'r tomennydd), Tŷ Newydd, tri tŷ Dinorwic House, dau dŷ Dinorwic Cottage (yn Rhif 1 ym ganed i), Ivy Cottage, Blue Peris, Elidir View, Blue Peris Farm, tri tŷ Llidiart y Clo a Than yr Aswy — 18 o dai i gyd. Cofiaf fy nhad yn sôn wrthyf am tua 21 o drigolion Pen Draw yn dod i Eglwys Fair Dinorwig i addoli ar y Sul; âi'r gweddill i Gapel Dinorwig (M.C.) neu i Gapel Sardis (B). Daeth dau offeiriad o Ben Draw yn ystod y ganrif hon yn ogystal. I'r chwael yr âi'r dynion a'r bechgyn a dim ond un gŵr ar un cyfnod oedd â swydd wahanol; gweithiai ef mewn swyddfa lechi yng Nghaernarfon. Roedd y gymdeithas yn un glòs a diwylliedig, y plant yn cael erwau Coed yr Aswy i chwarae ynddynt.

YR EGLWYS FACH

Addoli yn Eglwys y Santes Fair (Yr Eglwys fach fel y'i gelwid) y bu Lizzie Thomas, a gwna hynny o hyd, gan gerdded tua milltir un ffordd i'r Eglwys bob Sul, beth bynnag fo'r tywydd. Cerddodd filltiroedd yn ôl ac ymlaen o Llidiart y Clo i'r Eglwys gydol y blynyddoedd. Bedyddiwr oedd ei thad, ond deuai ei mam gyda hi i'r Eglwys. Byddai pawb o Ben Draw yn cerdded i'r tri addoldy, a golygfa hardd oedd honno ar y lôn slawer dydd. Ar ôl yr Ysgol Sul a'r Gosber bu am flynyddoedd yn

ymweld â ffermdy'r Fron Deg, islaw'r Eglwys, ac yno câi laeth enwyn a menyn i fynd yn ôl i Lidiart y Clo.

Cofia'n dda am lawer o Ficeriaid a Churadiaid a fu'n gwasanaethu yn Eglwys Fair, ac enwodd y Parchedig James Salt fel offeiriad arbennig iawn. Yn naturiol, gwelodd yr Eglwys fach yn llawn mewn dyddiau a fu, ond erys o hyd yn falch ei bod yn dal ei thir a bod gwasanaeth Cymraeg yno bob Sul.

HEDDIW

Fel y dywed y geiriau o Lyfr Daniel sy'n rhoi teitl yr ysgrif hon, gadawyd Lizzie Thomas ar ei phen ei hun ym Mhen Draw. Gwelodd y Cymry yn symud oddi yno o un i un. Yn ystod y ganrif hon, yr Ail Ryfel Byd a chau'r chwael oedd y ddau beth mwyaf dramatig yn hanes Pen Draw, yn arbennig felly yr ergyd farwol o weld cau'r chwael. Er bod newydd-ddyfodiaid ym mhob tŷ ym Mhen Draw, dywed Lizzie Thomas

eu bod yn dda wrthi ac yn barod i wneud rhywbeth iddi yn ôl y gofyn. 'Nid wyf yn unig,' meddai wrthyf, 'rydw i wedi arfer rŵan, wsti'. Un peth na fyddai yn ei freuddwydio ei wneud bellach yw cerdded y llwybr coed a'r enwog 'lwybr main' i Lanberis 'oherwydd dim ond pobl ddiarth hefo paciau ar eu cefnau sy'n eu cerdded bellach, lle gynt yr oedd chwaelwyr a thrigolion y fro'.

Heblaw addoli ar y Sul, mae'n mynd i bentref cyfagos Deiniolen ddwywaith yr wythnos — i'r te bach yn Ysgol Deiniolen ar brynhawn Mawrth ac i siopa yn yr un pentref ar brynhawn Iau. Wrth i mi ffarwelio â Lizzie Thomas y pawns hwnnw, dywedodd wrthyf ei bod yn disgwyl i'r Ymwelydd Iechyd alw heibio, a dyn yw hwnnw bellach — 'mae'r oes wedi newid!' meddai. Ond i mi, nid yw'r newid yn y Gwasanaeth Iechyd yn ddim byd o'i gymharu â'r newid a ddaeth i Ben Draw Dinorwig. Diolch i Lizzie Thomas, Llidiart y Clo, a gobeithio nad hi fydd y Gymraes olaf ym Mhen Draw.

BRYNREFAIL

Miss Lowri Prys Roberts, Godre'r Coed. Ffôn: 870580

Sefydliad y Merched: Bu'r gangen leol yn dathlu Gŵyl Ddewi gydag ymweliad â Theatr Gwynedd, Bangor, nos Iau, Mawrth 5ed. Yno mwynhaodd nifer helaeth o'r aelodau gynhyrchiad Cwmni Hwyl a Fflag 'Dim Byd Ynni'.

Mae'r aelodau yn brysur y dyddiau hyn yn paratoi ar gyfer amrywiol

gystadlaethau mewn Gŵyl Ddrama a gynhelir yn Neuadd yr Eglwys, y Felinheli, nos Fawrth, Mawrth 31ain. **Cymdeithas y Chwiorydd:** Bydd Cymdeithas Chwiorydd Eglwys M.C. Brynrefail yn agor eu tymor newydd ar nos Iau, Ebrill 2. Y wraig wadd fydd Mrs Mary Vaughan Jones, Waun-fawr.

CARTREF NYRSIO PENISARWAUN

- ★28 Stafell Wely Sengl gyda thy bach a lle ymolchi
- ★2 Stafell Wely Ddwbl gyda "en suite" (delfrydol i barau priod)
- ★Gwres canolog llawn
- ★Sustem ddiogelu rhag tân
- ★Eisteddfa fawr gyfforddus efo teledu lliw
- ★Sustem alw nyrs
- ★Yn Cwrdd â phob angen personol
- ★Lle bwyta mawr
- ★Aros cyfnod hir/byr
- ★Gofal 24 awr y dydd gan staff proffesiynol
- ★Croesawir rhai gyda cymorth D.H.S.S.
- ★Ymwelwyr yn cael galw unrhyw adeg
- ★Coginio cartefol
- ★Metron a staff sy'n siarad Cymraeg
- ★Ar lwybrau bws o Fangor a Chaernarfon

Am fanylion pellach cysylltwch â'r
Metron Cheryl Williams, Ffôn 872038.

GORSAF BETROL



BERAN

DEINIOLEN.

Ffôn: Llanberis 871521

Ar agor 7 a.m. — 9 p.m. bob diwrnod
Petrol ● Diesel ● Nwy Calor ● Glo
Cylchgronnau ● Papurau Newydd
Cardiau Penblwydd ● Wyau
Nwyddau Groser ● Melysion

Cyfle i ennill £10 bob wythnos i bawb sy'n prynu petrol

PRIF RIAN Y LAN ASWY Y Gwalch

Ar y diwrnod y gwelais Simone de Beauvoir am y tro cyntaf, cefais brofiadau diddorol eraill hefyd. 'Roeddem yn aros mewn gwesty ger y Café Rotonde lle y'i ganwyd, nid nepell o'i thrigfan yn y Rue Schoelcher tros y ffordd i fynwent Montparnasse.

Ar ôl syllu ar gerflun Balzac gerllaw, cerddasom ar draws y fynwent, lle'r aeth y ceidwad â ni i weld bedd y teulu Citroen, a rhai Bartoldi, Maria Montez, le Compte de Lis, ac yn fwyaf trawiadol; bedd Guy de Maupassant y storiwr o Etreta. 'Roeddwn yn edrych ar y digwyddiad fel cyflwyniad addas ar gyfer cyfarfod â rhian gyntaf y Lan Aswy.

'Roedd hi yr adeg honno wedi cyhoeddi *Les Mandarins*, nofel a enillodd iddi wobwr y Goncourt. 'Roeddwn wedi ei ddarllen ddwywaith rwy'n cofio ac wedi cael rhannau ohono'n feichus. 'Roedd angen eglurhad arnaf ar rai gosodiadau. Mae yn y nofel gymeriad gyda'r hwn yr oeddwn yn uniaethu fy hun. Dywed hi amdano: 'Nid oedd y darluniadol yn cael dim effaith arno. Nid oedd o bwys beth â ddanghosid iddo — temlau, golygfeydd, marchnadleoedd — roedd yn gweld y tu hwnt iddynt ac yn gweld pobl. O'i ran ei hun 'roedd yn fodlon ar ychydig ond yr oedd wedi gwrthsefyll yn ffyrnig rhag cael ei amddifadu o bopeth. Yn ei nofelau roedd yna gymysgfa ddieithr o dynerwch a chreulondeb...'

Yn ddiweddarach darfu iddi gyfaddef fod y cymeriad yma wedi ei seilio ar y llenor Americanaidd Nelson Algren, gyda'r hwn y bu iddi gynnal carwriaeth am gyfnod. Serch iddi gadw ei pherthynas glôs â Jean Paul Sartre drwy gydol ei hoes, doedd anturiaethau 'anisgwyl' chwedl hithau ddim yn bethau dieithr iddi.

'Roeddwn wedi sgrifennu ati i ofyn â fuaswn yn cael dod i'w gweld. 'Roedd ei hatebiad buan yn syndod, ac mewn un ystyr yn wamallrwydd: 'Nid wyf yn chwilio am ddarlennydd mwyn i ddod i'm gwely,' meddai, 'ond pan fyddi ym Mharis, rho ganiad i mi...'

Ond fel y dynesai'r awr ym mynwent Montparnasse, roedd fansicrwydd yn cynyddu wrth gofio am erthygl a ddarllenais amdani yn awgrymu ei bod yn ddraig o fenyw. Ond ni chefais i'r argraff honno erioed er i mi ei gweld nifer o weithiau ar ôl hynny a gohebu â hi

am hir gyfnod. Sylwais fodd bynnag nad oedd ganddi ewyllys da tuag at fy eilun personol, John Steinbeck. Ddeallais i erioed paham.

Siaradodd hi fawr erioed wrthyf am Sartre. Yn hytrach roedd ganddi fwy o chwilfrydedd am fy nghylch i a'm perthynas â llywodraeth Lloegr. Awgrymodd y buasai'r sefyllfa ar brydiau'n profi yn llyfethair i mi fel llenor — tebyg i Lydawr yn Ffrainc.

'Roedd ei fflat yn gymysgedd o symylrwydd a'r byd amheuthun. Crogai gwrthrychau a delwau o leoedd anghysbell y byd ar y muriau, a'r rheiny mewn trefn ddilywodraeth. Byddai ganddi bob amser gyflenwad o wisgi, ac ar fy nghyfer byddai wedi gofalu bod copi o'i llyfr diweddaraf wedi ei lofnodi. Cyhoeddodd restr faith; y rhan fwyaf yn rhoi sylw i safon merch, a dioddefodd sarhad a bryntni cyhoedus o ganlyniad. Poerwyd arni lawer gwaith yn y stryd ar ôl iddi gyhoeddi ei hastudiaeth ar ferched: 'The Second Sex'.

'Roedd ei derbyniad diffuant ohonof fi a'm cyflwr yn peri i mi gael yr argraff fod y wasg boblogaidd yn cyfeiliorni drwy roi ar ddeall i'r cyhoedd nad oedd ganddi fawr amser i neb ond dyrnaid o'i dewisiedig rai. Euthum â'm mab Siôn yno unwaith yn blentyn a chysgodd ar esmwythfainc. Erbyn hyn, mewn cylchau llenyddol, mae'n clochdar mai ef yw'r unig un ym Mhrydain a gafodd ei gusanu gan Simone de Beauvoir.

Serch ei bod wedi teithio yn fyd eang ac wedi sgrifennu llyfrau ac astudiaethau maith ar wledydd fel China a'r Amerig, ei phentref parhaol oedd y darn hwnnw rhwng Montparnasse a Saint German des Pres, ac yn y cwrpas hwnnw yn ei chartref ac yn y caffiau yr ysgrifennodd y gweithiau hynny a darddodd o ysgogiad mawr ei bywyd: safle'r ferch yn y gymdeithas. Nid nad oedd hi hefyd yn taflu ei brwdfrydedd yn gyfan gwbl i achosion eraill, fel argyfwng gweithwyr Renault, a rhyfel Algeria, pryd y bu bygythiadau ar ei bywyd lawer gwaith. Efallai bod arwyddocâd ei hapêl yn amlwg yr adeg honno, pan warchodwyd ei chartref ddydd a nos gan efrydwyr ieuainc o'r Sorbonne.

Pan ddaeth i mi'r newydd am ei

marw, roeddwn mewn tŷ bwyta yn y dref. Wylais i'm cwpan: llusern arall wedi mynd.

LLYFRAU NEWYDD

Mae cyfres 'Llyfrau Llafar Gwlad' eisoes wedi ennill ei phlwy ymysg darllenwyr Cymru gan ei bod at fryd y rhai sy'n ymddiddori mewn llên gwerin, hanes, hen grefftau a rhariant yr iaith Gymraeg a'i thafodieithoedd. Am brisiau rhesymol dros ben, dyma sillfaidd ddeniadol iawn o lyfrau sy'n llawn lluniau a gwybodaeth ddifyr.

Cyhoeddwyd tair cyfrol newydd yn y gyfres yn ddiweddar — rhifau 22, 23 a 24 yn y gyres. Mae'r rhain eto yn dilyn yr un patrwm ac yn sicr o apelio'n eang am bris o £2 yr un.

Mae teitl y gyfrol **Hen Adeiladau Fferm**, gan Eurwyn Wiliam, curadur Amgueddfa Werin Cymru, Sain Ffagan, yn esbonio ei chynnwys. Mae'n ymdrin ag olion gwladwy crefft gyntaf dynol ryw. Erbyn heddiw, mae'r frwydr i ennill bywoliaeth economaidd ar y tir yn golygu newidiadau cyson a chwalu hen adeiladau amaethyddol. Aeth briws, clawdd tato, glowty, cefngor, swpren, llaesod a tho brat yn bethau prin. Ond cofnodir y cyfan yn y gyfrol hon, sydd nid yn unig yn cynnwys nodweddion pensaernïol ond hefyd yn ddarlun o gymdeithas a thechnegau diflanedig.

Cyfrol ar lunwyr telynau yng Nghymru yw **Seiri Telyn Cymru** gan ddal sylw arbennig ar wneuthurwyr y telynau teires. Mae Mair Roberts (Telynores Colwyn) yn olrhain yr hanes o'r dyddiau cynharaf un drwy gyfnod llewyrchus y ddeunawfed ganrif i'n dyddiau ni. Cawn ymweld â chanolfannau fel Llanrwst a Llanofar a chyfarfod â sawl cymeriad lliwgar.

Cyfrol y bu cryn ddisgwyl amdani yw un yr Athro Gwyn Thomas sy'n dwyn y teitl **Duwiau'r Celtiaid**. Y dyddiau hyn, mae diddordeb brwd yn hen grefydd y Celtiaid ac mae llawer o ysgolheigion Ewropeaidd wedi ymchwilio i'r maes. Yn y gyfrol hon, cawn gip ar eu gwaith ynghyd â sylwadau treiddgar gan ysgolhaig o Gymro sy'n llwyddo i gysylltu'r dystiolaeth weledol ar gerfluniau â'r dystiolaeth ddelwedol a geir mewn llenyddiaeth Geltaidd.

Cyhoeddir y tair cyfrol gan Wasg Carreg Gwalch, Capel Garmon, Llanrwst (690 710261) ac maent ar werth yn eich siopau Cymraeg lleol. Os oes unrhyw anhawster gellir cysylltu â'r Wasg.

RHEOLAU'R GYMUNED EWROPEAIDD YN NEWID TREFNIADAU CIGYDD

Ddiwedd mis Mawrth bydd Wavell Roberts, cigydd o Lanrug, yn gorfod newid ei drefniadau ynglŷn â gwerthu cig o'i fan. Daw rheoliadau llym y Gymuned Ewropeaidd i rym ar Ebrill 1af (na NID Ffŵl Ebrill mo hyn!) sy'n golygu na fydd Wavell bellach yn medru cynnig yr un gwasanaeth â chynt.

Effaith hyn fydd amddifadu llawer o bobl y fro o'r gwasanaeth teithiol a gynigiai Wavell. Ni fydd bellach yr hawl ganddo i dorri cig yn ei fan — siom fawr i'r rhai oedd yn disgwyl am ei ymweliadau wythnosol, yn enwedig y rheini oedd yn analluog i fynychu'r siop yn Lanrug.

Ond mae yna newyddion da! Mae'n parhau gyda'i wasanaeth o ddanfôn archebion ledled y fro.

Dymuna Wavell fanteisio ar y cyfle i ddiolch i'w holl gwsmeriaid am y gefnogaeth a dderbyniodd ganddynt gydol y blynyddoedd y bu'n cynnig y gwasanaeth teithiol hwn. Mawr obeithia y bydd y gwasanaeth 'archebu a danfôn' yn parhau o gymorth.

**Wavell
Roberts**
CIGYDD
LONDON HOUSE
LLANRUG

Ffôn: Caernarfon 3574

PEN CIGYDD Y FRO

Yr ŵyn lleol mwyaf blasus
Selsig cartref, cigoedd parod
i'w bwyta

Archebion ar gyfer y rhewgist
MYNNWCH Y GORAU
DEWCH ATOM NI!

**GERDDI
GLASCOED**

(Ger Capel Glascoed)

PENISARWAUN

Mae'r gwanwyn
yn dod!

Cyn plannu
galwch heibio
neu ffoniwch

8870453

SIOP
Nwyddau Gardd
Cynnyrch Cartref
Crefftwaith



CANOLFAN
GARDDIO
Blodau, Grug
Alpau, Perthi

ANTUR WAUNFAWR

Ffôn: Waunfawr 721

Cynnal a Chadw Gerddi
Cynnal a Chadw
Plannu Coed

Meinciau Concridd a Phren
Planters Concridd a Phren
Corachod

Emyr Jones

**PLYMAR A
PHEIRIANNYDD
GWRESOGI**

Cynnal Boileri nwy,
olew, tanwydd solat
a thredio peipiau

**44 Glanffynnon
LLANRUG
Caernarfon 3513**



O SIAMBAR SELWYN

Yn ystod y flwyddyn ddiwetha 'ma fe dderbyniodd Cyngor Cymdeithas Llanddeiniolen, fel pob cyngor cymdeithas arall o bosib, nifer o adroddiadau manwl a lliwgar a chostus reit siŵr, o bencadlys y cyngor sir.

Awgrymu'n gynnil, oedd pwrpas yr adroddiadau hyn, mai'r cyngor sir a ddylai fod yr hyn a elwir yn gyngor aml-bwrpas, yn hytrach na'r cyngor dosbarth. Wel, dyfarniad Mr Hunt oedd ymddiried yn y cynghorau dosbarth.

Y syndod i mi yw, er i'r cynghorau sir a'r cynghorau dosbarth ac i Aelodau Seneddol ddatgan yn huawdl y byddai gan y cynghorau cymdeithas le amlwg a mwy o gyfrifoldebau yn sgîl yr ad-drefnu, doedd 'na ddim sôn am y cynghorau cymdeithas yn natganiad yr Ysgrifennydd Gwladol.

Mi sylwais i yn ystod y flwyddyn 'canfasio' fod y cyngor sir a'r cyngor dosbarth yn fwy parod i ateb llythyrau'r cyngor cymdeithas, ac i wneud addewidion, ac i roi sylw i'r cwynion a gyflwynwyd iddynt ar fyrder. Sut bydd hi o hyn allan tybed? Ond dyna fo — p'r un bynnag blaid fydd mewn grym yn San Steffan, does 'na ddim amheuaeth na welwn ni gryn newid ym myd llywodraeth leol cyn diwedd y ganrif 'ma, ac mi rydw i'n rhagweld y bydd gan y cynghorau cymdeithas lawer mwy o rym ym myd llywodraeth leol.

O fewn dwy flynedd mi fydd y cyngor plwyf wedi bod mewn bodolaeth ers canmlynedd. Fe'i sefydlwyd yn 1894. Mae'n wir iddo newid enw, a chael ei alw yn gynor bro, cyngor cymuned, neu gyngor cymdeithas yn 1974. Mabwysiadodd Llanddeiniolen y term cyngor cymdeithas, ond cyngor plwyf fydd o ar lafar gwlad am flynyddoedd reit siŵr.

Cynhaliwyd y cyfarfod cyntaf o Gyngor Cymdeithas Llanddeiniolen yn Ystafell y Band, Deiniolen, ar nos Lun, Ebrill 22, 1974.

Edwin Lloyd Evans, Gallt y Foel oedd y cadeirydd, ac offrymwyd gweddi gan y diweddar Alun Williams, Rhiwlas, ar ddechrau'r cyfarfod. (Gyda llaw, mae Cyngor Cymdeithas Llanddeiniolen yn dechrau pob cyfarfod gyda gweddi.)

Mi ddechreuais i ar fy swydd fel clerc i'r cyngor plwyf (sy'n un o'r plwyfi mwyaf yng Nghymru) ym mis Gorffennaf 1955, ac wrth edrych yn ôl dros ysgwydd y blynyddoedd fedra i ddim peidio ac edmygu aberth yr aelodau y pryd hynny.

Byddem yn cyfarfod ar nos Wener yn yr hen Gynghorfa, yn Racca. Lampau olew oedd yn goleuo'r

ystafell. Meddyliwch am rai fel y diweddar Hugh Parry a John W. Jones, yn cerdded yr holl ffordd dros Gaermynydd o Rhiwlas, a hynny wedi diwrnod caled o waith yn Chwarel y Penrhyn.

'Doedd na'r un aelod o'r cyngor yn berchen car, a reidio beic o Fethel i'r cyfarfodydd a wnai'r clerc yr adeg honno.

Oes mae gen i barch mawr i'r cynghorwyr a aberthodd cymaint ac a fuont mor ffyddlon i gyfarfodydd y cyngor yn fy nyddiau cynnar i fel

clerc. Chwarelwyr oeddynt bron i gyd, a'r ddawn gynhenid i siarad yn gyhoeddus ganddynt. Roedd ffraethineb y chwarelwr yn amlwg yng nghyfarfodydd y cyngor pryd hynny. Roedd 'na ddadlau brwd — 'roedd 'na dynnu coes hefyd.

Oni ddywedodd yr Athro W. J. Gruffydd, yn ei *Hen Atgofion*, y byddai o wedi rhoi unrhyw beth am gael rhai o chwarelwyr diwylliedig Bethel yn ei ddosbarthiadau Cymraeg yng Ngholeg y Brifysgol, Caerdydd?

Mae'n weddol hawdd cael mynediad i goleg heddiw, a dod oddi yno gyda chynffon o radd, ond mae'n anodd cael rhai i gynrychioli ein pentrefi yn wirfoddol, a chofiw'n mai gwaith cwbwl wirfoddol yw cynrychioli eich ardal ar y cyngor cymdeithas. Chewch chi ddim costau teithio hyd yn oed.

Er yr holl fanteision sydd i'w cael heddiw i'w cymharu â deugain mlynedd yn ôl. Mae ein bywyd

cymdeithasol yn dlotach. Pam tybed?

O ran diddordeb dyma restr o enwau aelodau cyntaf Cyngor Plwyf Llanddeiniolen. Cynhaliwyd y cyfarfod cyntaf ar Ragfyr 4, 1894

Ward Ebenezer: Parch. David H. Williams, M.A., Bodhyfryd; Mr Ellis Thomas, Penybont; Mr Thomas W. Thomas, Caeau Uchaf Road.

Ward Clwt-y-bont: Mr John J. Jones, Gallt-y-foel; Mr William D. Pritchard, Glandŵr; Mr Thomas T. Parry. Bryn'refail.

Ward Dinorwig: Mr John W. Williams, Tanrhiw; Mr David H. Williams, Ty Ddewi.

Penisa'rwaun: Mr Thomas Rees Owen, Arthur Terrace; Mr William Speakman, Post Office.

Bethel: Mr Hugh T. Griffith, Bryn Alun; Mr William Parry, Gorffwysfa (tad W. J. Gruffydd); Mr John Hughes, Garth, Seion.

Rhiwlas: Mr Robert Thomas, Garreg Lwyd; Mr Robert Ellis Jones, Carfan.

LLANBERIS

Gwyneth ac Eifion Roberts, Becws Eryri. Ffôn: 870491

Enillwyr Clwb Ffrindiau Ysgol Dolbadarn (1/3/92) — £35: Mrs J. Jones, Peris View, Llanberis (155); £25: Mr C. Roberts, Newton Hall, Llanberis (040); £15: Edryd Sharp, 28 Maes Padarn, Llanberis (145); £10: Lez, d/o Victoria Hotel, Llanberis (178); £5: Mrs J. Whitaker, 43 Newton Street, Llanberis (084).

Undeb y Mamau: Cynhaliwyd gwasanaeth Undeb y Mamau yn Eglwys Sant Padarn ar 3 Mawrth, gyda'r Parch Gwynfor Williams yn ein harwain a Mrs Enfyf Parry yn darllen y Colect. Cafwyd araith arbennig gan Mr Williams am 'Mary Jones a'i thaith i'r Bala' ac hefyd sleidiau yn dangos y ffordd â gymerodd. Anfonwyd cyfarchion at Miss Catherine Pritchard a Mrs Jennie Parry sydd yn yr ysbyty a hefyd Mrs Kathleen Williams a Mrs Arfon Evans sy'n wael gartref. Llongyfarchwyd Mrs Mackeen a oedd yn dathlu pen-blwydd; hefyd Mrs Heather Jones ar enedigaeth mab bach; Mrs Brenda Roberts. Y gwestwagedd oedd Mrs L. Pugh a Mrs Dilys Phillips a thalwyd y diolchiadau iddynt ac i'r Parch Gwynfor Williams gan Mrs Hilda Williams a Mrs Maria Pritchard.

Cyngerdd: Cynhaliwyd cyngerdd yng Ngwesty Dolbadarn ar nos Sadwrn,

22 Chwefror. Cymerwyd rhan gan Ted Anwyl, Deiniolen; Parti Tresi Aur, Rhuthun; a Lyndsey Vaughan Parri, Deiniolen.

Fe drefnwyd raffl gan Roy Griffith a Robin Jones ac fe'u enillwyd gan: Wil Lôn Bost, Llanberis; Mrs Olga Williams, Llanberis; Iris Summers, Rhosgadfan; Meinir Williams, Llanrug; Nellie Hughes, Deiniolen; Colin Saynor, Llanberis; Richard Jones, Llanberis; Ann Hunt, Rhostryfan.

Roedd y noson yng ngofal Elwyn ac Aneurin Jones.

Llongyfarchiadau i Eirian, merch Mr a Mrs Hugh Hughes, 87 Maes Padarn, a Neil, mab Mr a Mrs Bob Roberts, Llanfairfechan, ar eu priodas ar 7 Mawrth.

Dymuna Eirian a Neil ddiolch i'r teulu, ffrindiau a chymdogion am y cardiau a'r anrhegion a dderbyniwyd ar achlysur eu priodas. Diolch yn fawr.

Clwb Eryri: Cynhaliwyd swper Gŵyl Ddewi i aelodau'r Clwb a'u gwagedd yng Ngwesty'r Gwynedd ar nos Wener, 6 Mawrth, pryd y mwynhawyd pryd blasus tros ben ac y gwrandawyd ar anerchiad hynod o ddifyr ar ôl y wledd gan Mr Iolo Huws Roberts, Waunfawr. Llywyddwyd y

noson gan lywydd y Clwb, sef Mr Selyf N. Hughes, Llanberis.

Atgoffir yr aelodau mai'r wibdaith flynyddol fydd y cyfarfod nesaf a gobeithir teithio ar ddydd Sadwrn, 20 Mehefin. Edrychwch allan am fwy o fanylion yn nes at y dyddiad.

DRAENOG




Hen fyd câs ydi hi ar yr athrawon: gorfod mynychu pob math o gyrsiau diflas a di-fudd. Ond trodd y cyfan yn fendith i ddau athro ymarfer corff o'r fro yn ystod yr wythnosau diwethaf. Yn ôl a ddeallwn roedd cwrs hyfforddiant arbennig i'w gynnig ym Motwnnog, a phenderfynodd y ddau gyd-deithio yno. Ond rywsut neu'i gilydd, ar ôl cyrraedd Pwllheli, aeth pethau'n bur ddryslyd arnynt, ac ymhell ar ôl amser cychwyn y cwrs, roedd y ddau yn parhau i chwilio am y ffordd gywir allan o Nefyn! Maent bellach wedi elwa ar eu profiadau, ac wedi cychwyn dau gwmni newydd sbôn — y *Mona Musteri Twrs*, a'r *Pant Mwyn Sgwl of Map-riding and orienteering*.

J.R. PRITCHARD BONTNEWYDD

Ffôn:
Caernarfon 3507

Gwneuthurwyr
Ffenestri a Drysau
Ffoniwch am fanylion
a phrisiau cystadleuol



GWYNETH ROBERTS

84 Stryd Fawr, Llanberis

Ffôn: 870491

PAENT, PAPUR WAL
TEGANAU, CARDIAU
MELYSION
ANRHEGION



Bara Ffres
Teisennau

Priodas, Bedydd
Pen-blwydd ac ati

Peis, Rholiau Sosej

Pasteiod, Teisennau Hufen

Teisennau Plât, Torth Gyrains ac ati

BECWS ERYRI

Stryd Fawr, Llanberis 870491

WAUNFAWR

Mrs Nan Roberts, Pantafon, Waunfawr

Enillwyr Clwb 300 mis Chwefror — £40: Mrs D. Y. Beech, Rosemount; £25: Mr E. W. Hughes, 15 Tref Eilian; £10: Mr I. Bracegirdle, 22 Bro Waen.

Y Gymdeithas Lenyddol: Daeth tymor llwyddiannus arall i ben nos Lun, Mawrth 2, pan yr eisteddodd dros hanner cant o'r aelodau i fwynhau Bwffe Gŵyl Ddewi a ddarparwyd gan rai o'r merched. Y gŵr gwadd oedd Mr Bobbie Haines, Caernarfon. Yn dilyn y wledd cafwyd noson o gystadlaethau llenyddol ac adloniant ysgafn. Llwyddodd Mr R. Gwyn Davies i fod yn fuddugol ar y tair cystadleuaeth, sef cyfansoddi chwe dihareb newydd ysgafn, y limerig a ffurfio brawddeg o'r ddau air 'Betws Garmon'. Y beirniaid diduedd oedd Miss Ifanwy Rhisiart, Mr Iolo Huws Roberts a Mr Eifion Glyn. Cymerwyd rhan yn yr adloniant gan Mrs Margaret Owen, Miss Katie Roberts, Mrs Grace Dawson, Mr Humphrey Roberts, Mr Alun Williams a thriawd cerdd dant, sef y Mri Deiniol Hughes, Ifor Hughes a Rol Williams. Cyfeiliwyd gan Mrs Catherine Jones. Cyhoeddwyd fod Mr Stanley Williams, y trysorydd, a Mr Rol Williams, y trefnydd, yn dymuno rhoi gorau i'w dyletswyddau ar ôl saith mlynedd. Wedi trafodaeth hir, pryd y ceisiwyd gan y ddau i newid eu meddyliau, etholwyd y canlynol i ffurfio pwyllgor newydd: Miss Ifanwy Rhisiart, Mrs Margaret Owen, Mri Humphrey Roberts, Gwilym O. Williams, Iolo Huws Roberts, Deiniol Hughes, ynghyd â'r ddau gyn-swyddogion. Diolchwyd am noson ddifyr a chartrefol i ddathlu'r Wyl gan Mrs Mary Vaughan Jones, a chyhoeddwyd mai gyda'r nos ym mis Mehefin y bydd y trip blynyddol.

Dathlu Priodas Ruddem: Llongyfarchiadau i Mr a Mrs Gwilym Madoc Jones, Stâd Bro Waun, ar ddathlu eu priodas Ruddem yn ddiweddar.

Dyweddio: Llongyfarchiadau a phob dymuniad da i Karen Turner, Collfryn, ar ei dyweddïad â Dewi Morris, Merddyn, Ceunant.

Dathlu Pen-blwydd: Llongyfarchiadau a phob dymuniad da i Ella Wyn, Graianfryn, ar gyrraedd ei 18 oed.

Hefyd i Mrs Hughes, Llys Meredydd, ar ddathlu ei phen-blwydd yn 90 oed. Anfonwn ein cofion

cynhesaf atoch Mrs Hughes.

Genedigaeth: Llongyfarchiadau i Mrs Elen Jones, Eryri Wen, Bod Hyfryd, ar ddod yn nain. Ganwyd merch fach, Lowri Ann, i'w mhab lfer a'i wraig Dilys Ann, yn y Groeslon. Chwaer fach i Eleri a Catrin. Mae Mrs Jones yn nain i bymtheg o wyrion a wyresau ac yn hen nain i un. Cedwir hi yn eitha' prysur yn ymweld â hwy i gyd, gan ei bod wedi teithio dair gwaith i'r America i ymweld â'i dwy ferch, Gweno a Rowen a'u teuluoedd.

Llwyddo yn eu prawf gyrru fu hanes llawer o bobl ifanc y pentref. Llongyfarchiadau mawr i chi.

Yn yr ysbyty: Anfonwn ein cofion at Mrs Roberts, Stad Bryn Golau, sydd wedi gorfod dychwelyd i'r ysbyty, ac at Mrs Morfa Evans sydd yn Ysbyty Eryri; a Mr Glyn Williams, Stad Tref Eilian.

Adref o'r ysbyty: Croesawn adref a dymunwn adferiad iechyd buan i Mrs Lywela Davies, Stad Tref Eilian; Mrs Irene Roberts, Pant Teg; Mr John Cotton, Grug y Mynydd; Mr Bracegirdle, Stad Bro Waun; ac Osian, mab Iris a Keith Owen, Stad Tŷ Hen. Croeso adref i Fflŷr Llywelen, 22 Tref Eilian ar ôl treulio naw mis mewn ysbyty. Rydym yn falch iawn o dy weld yn gwella Fflŷr.

Anfonwn ein cofion at amryw o'r pentrefwyr sydd yn wael yn eu cartrefi.

Croeso adref hefyd i'r grŵp Beganîfs a fu ar ymweliad â'r Iseldiroedd, lle yr oeddynt yn cyfarfod â grwpiau o wahanol wledydd ac yn cymryd rhan mewn cyngerdd.

Croeso: Estynwn groeso i'r teuluoedd sydd wedi dod i fyw i'n plith a dymunwn yn dda i'r rhai sydd wedi newid cartref o fewn y pentref. Dymunwn pob hapusrwydd i chi ar ei haelwydd newydd.

Diolchiadau: Dymuna Mr Gwilym O. Williams, Bodhyfryd, a'r teulu ddiolch o galon am bob arwydd o gydymdeimlad a ddangoswyd tuag atynt yn eu profedigaeth sydyn o golli brawd.

Dymuna Eric a Rhiain, 22 Tref Eilian, rhieni Fflŷr Llywelen, ddatgan eu diolchgarwch i'r holl deulu a pherthnasau, cyfeillion a chymdogion am eu caredigrwydd tuag at Fflŷr yn ystod yr amser hir y bu yn yr ysbyty. Diolch i feddygon a gweinyddesau

wardiau Seiriol, Minffordd a Dewi yn Ysbyty Gwynedd. Diolch i'r meddyg teulu, Dr E. E. Parri ac i'r meddygon Dr David Wilkinson a Dr Lynch. Diolch i'r gweithwyr cymdeithasol, Mrs Ruth Charles a Mrs Dilling, a fu'n gymorth mawr i ni fel teulu. Diolch i'r meddygon a staff 'Gwynfa', Bae Colwyn. Diolch yn fawr iawn i bawb, mae wedi bod yn amser anodd iawn.

Yr Urdd: Llongyfarchiadau i'r canlynol ar eu llwyddiant diweddar yn Eisteddfodau yr Urdd — **Cylch, dan 12 oed:** Côr adrodd, 1; Parti Recorders, 1; Cân Actol, 2; Lowri Glyn (Ffidl), 2; Ian Roberts (Recordydd), 3. **Eisteddfod Cylch, 12-15 oed:** Kristy Jones (Ffliwt), 2. **Eisteddfod Sir, 15-19 oed:** Kylie Jones (Clarinet), 2. **Eisteddfod Aelwydydd:** Elin Gwilym (Siarad Cyhoeddus), 2.

Dymuna'r pwyllgor ddiolch i bawb a fu'n gyfrifol am hyfforddi y plant ar gyfer yr holl gystadlaethau.

Cafwyd cyfarfod llwyddiannus iawn 4 Mawrth, pan ddaeth rhieni a chyfeillion plant yr Urdd ynghyd yn y Ganolfan i wylïo'r plant yn ymarfer

ar gyfer yr Eisteddfod. Arweiniwyd y noson gan Mrs Llinos Cadwaladr, a diolchwyd i bawb am eu cefnogaeth gan Mrs Nan Roberts. Gwnaethpwyd casgliad tuag at y gost o anfon y plant i gystadlu yn yr Eisteddfodau.

Mawrth 11: Aeth y plant i ymweld â Stiwdio Barcud yng Nghaernarfon. Diolch i John Gwynedd am gludo'r plant.

Mawrth 18: Diolch i Duncan Brown, hen ffrind i blant yr Urdd, am noson ddifyr yn sôn am fyd natur.

Mawrth 25: Cafwyd sioe gan Carl y Consuriwr.

COFIWCH: Penwythnos Glanllyn ar Ebrill 3-5. Diolch i Nia Llwyd a Gwennan, fydd yn teithio gyda'r plant ac yn cadw trefn arnynt!! Daw tymor yr Urdd i ben ar nos Fercher, 8 Ebrill.

Yr Ysgol Feithrin: Cynhelir cyfarfod blynyddol Cylch Meithrin a Cylch Ti a Fi, yn y Ganolfan, nos Lun 6 Ebrill, am 8 o'r gloch. Croeso i aelodau'r pwyllgor, rhieni a gwarchodwyr y plant, ac unrhyw un arall â diddordeb yng ngwaith y Mudiad.



Dr Huw Roberts yn dangos i aelodau Pwyllgor Ymryson Cŵn Defaid Nant Peris a'r Cylch y peiriant (Nebuliser) a ddefnyddir gan gleifion sy'n dioddef o asthma. Prynowyd y peiriant hwn gyda'r arian a gyflwynwyd gan y pwyllgor i blwyf Llanrug yn 1990.

DRAENOG

Digwydd darllen hysbyseb yn y *Caernarvon and Denbigh Herald* — un ddwyieithog, wedi ei gosod gan **Ganolfan Hamdden Biwmares**. Mae'n amlwg fod y **Ganolfan arbennig** hon yn ceisio'u gorau glas i ddenu mwy o gwsmeriaid. Mae un o'r 'sesiwns' (eu gair hwy) yn sicr o

ddenu dynion yno o bob cwr o'r Ynysg, a synnwn i ddim na fydd ambell un yn dechrau trefnu bysus i fynd yno o'r tir mawr. A beth, meddech chi, yw'r atyniad? Wel i'r di-Gymraeg 'Ladies Activities' ydi'r gweithgaredd, ond o'i gyfieithu bydd y Cymro yn cael cynnig 'Chwarae Merched'! Canolfan Biwmares ddeuddd o, nid fi.

DAVID CLOUGH
Ynysoedd
WAUNFAWR
Ffôn: 282
Paentio a Addurno
Gwaith Atgyweirio
'Estimates' am ddim

Bistro
LLANBERIS
Ffôn 871278

Beth am eich parti 'Dolig eleni
partïon o 10 i 50
Cinio Twrci 3 cwrs o £8.50 (nos)
neu £7.50 yn y dydd

Croeso cynnes i bawb oddi wrth Danny a Nerys

W. H. JONES

TRYDANWR
Green Bank
Stryd Fawr
LLANBERIS
Ffôn: Llanberis
871470

Cottractau Weirio Tai
Cawodydd Trydan
ac ati

LLANRUG

Mrs Dyfi Jones, Tyddyn Rhyddallt. Ffôn: C'fon. 76733

Merched y Wawr: Yng nghyfarfod mis Mawrth o'r gangen estynnodd y llywydd, Ms Phyllis Ellis, groeso cynnes i Mrs Margaret Evans, Llys Eiddon, y llywydd anrhydeddus a Mrs Gladys M. Jones, Y Dalar Deg, un o aelodau cyntaf y gangen i'n plith i ddathlu Gŵyl Ddewi. Treuliwyd y noson yn 'Rhannu a Blasu' bwydydd wedi eu paratoi gan yr aelodau, ac yna cafwyd sgwrs ddifyr a hwyliog gan Dafydd Whiteside Thomas ar 'cysylltu ofergoelion â dyddiau arbennig o'r flwyddyn'.

Enillydd y raffl oedd Mrs Avril Jones a diolchwyd i Dafydd gan Menna Williams.

Sylwer mai ar y 7fed o Ebrill y bydd y cyfarfod nesaf pan ddisgwylir 'Morus' i'n plith i drin gwallt. Gofynnir i'r aelodau ddod a lluniau ohonynt eu hunain yn fabi neu'n blentyn i'r cyfarfod nesaf.

Y Gymdeithas Undebol: I derfynu'r tymor fe fwynhawyd swper i ddathlu Gŵyl Ddewi ym Mwyty Tŷ Golchi. Y gŵr gwadd oedd y Parch. Huw Gwynfa Roberts, un o blant Pontrhythallt. Croesawyd ef a'i briod, Mair, gan y llywydd, y Parch. John Morris. Cafwyd anerchiad pwrpasol am Ddewi Sant.

Bu trafodaeth ynglŷn â dyfodol y Gymdeithas, a sefydlwyd beth amser yn ôl gan y diweddar Mr Morris D. Jones (Glan Caledffrwd) i gynnwys eglwys Bryngwyn, Hermon, Tanycoed a Phontrhythallt. Penderfynwyd, gyda gofid, ddirwyn y Gymdeithas i ben yn bennaf oherwydd lleihad yn nifer yr aelodau. Talwyd diolch i'r siaradwr ac i swyddogion y Gymdeithas am eu gwaith am nifer o flynyddoedd gan y Parch. John Morris a Mr Emrys Owen.

Cwrdd Gwedd: Cynhaliwyd Cwrdd Gwedd Byd-eang y Chwiorydd yn festri Pontrhythallt ar ddydd Gwener, 6 Mawrth. Y thema eleni oedd 'Byw'n Ddoedd 'da'r Greadigaeth', ac arweiniwyd y cyfarfod gan Mrs Beryl Thomas.

Mae hwn yn wasanaeth ryng-enwadol a bu'r canlynol yn cymryd rhan: Mrs Jones-Evans, Mrs Whiteside Thomas, Mrs A. Smith, Mrs K. Owen, Mrs K. Griffiths, Miss M. Humphreys, Mrs B. Jones, Mrs L. Owen, Mrs E. Jones, Mrs M. Roberts, Mrs J. Davies, Mrs M. Jones, Miss M. Roberts, Mrs Parry a Mrs N. Lovatt.

Darparwyd y rhaglen gan wragedd sydd yn aelodau o wahanol eglwys Cristnogol yng nghanolbarth Ewrop, sef Awstria, Gweriniaeth Ffederal yr Almaen, a'r Swistir, ac fe'i cyfieithwyd gan Mrs Nan Lewis, Peniel, Caerfyrddin.

Plaid Cymru: Bu noson dathlu Gŵyl Ddewi yng Ngwesty Fictoria, Llanberis, yn hynod o lwyddiannus. Daeth cyfeillion o ganghennau Llanberis, Waunfawr, Deiniolen a Dyffryn Ogwen atom i ddathlu. Y grŵp 'Aderyn Prin' a gyfeiliodd i'r dawnsio gwerin gyda Elfed Roberts yn galw. Croesawyd pawb gan Phyllis Ellis. Cyflwynodd y Cynghorydd Dafydd Orwig y gŵr gwadd — Dyfan Roberts — a chawsom ganddo anerchiad hwyliog a hefyd amserol a dwys. Rydym yn ddiolchgar iawn i Westy'r Fictoria am

eu croeso a'u trefniadau ar ein cyfer.

Oherwydd prysurdeb etholiadol penderfynwyd rhoi heibio gweithgareddau'r gangen tan fis Mai. Pryd hynny fe drefnir Helfa Drysor ar nos Fercher, Mai 13, gan Phyllis Ellis a'i ffrindiau. Daw mwy o fanylion eto.

Cymdeithas Lenyddol Capel Mawr: Cynhaliwyd cyfarfod o'r Gymdeithas nor Fercher, Chwefror 5, gyda Mr Alf Parry yn llywyddu a chyflwynodd y gŵr gwadd, sef Mr Griff Roberts, Llanrug. Aeth ef â'r aelodau, drwy gyfrwng sleidiau, ar daith drwy Wynedd a thros y dŵr. Diolchwyd gan Miss M. G. Roberts. Paratowyd panged gan Mrs J. Davies a Mrs M. Parry. Ar Chwefror 19 cynhaliwyd cyfarfod dan lywyddiaeth Miss Malan Roberts, a chyflwynodd hi Mr Bobby Haines, Caernarfon, a fu'n sgwrsio ac yn dangos lluniau o Gaernarfon yn yr hen ddyddiau. Diolchwyd i Mr Haines gan Mr Myrddin Williams. Paratowyd paned gan Mrs Ceinwen Roberts, Mrs Megan Williams, Mrs Annie Parry, Mrs Lola Butler, a diolchwyd iddynt gan Mrs J. Davies.

Ar Chwefror 26 i orffen tymor llwyddiannus cafwyd swper Gŵyl

TARIAN YR URDD



Adran yr Urdd, Ysgol Gynradd Llanrug yn arddangos y darian a enillwyd ganddynt am ddod yn Ysgol Gynradd uchaf ei marciau yn Eisteddfod yr Urdd, Cylch Arfon.

Ddewi wedi ei drefnu gan yr aelodau. Y gŵr gwadd oedd Mr Richard Ellis Owen, Llandwrog, a chafwyd sgwrs ac atgofion ganddo am yr amser oedd wedi ei dreulio yn y Capel Mawr. Cyflwynodd rodd haelionus. Cafwyd ychydig o adloniant ysgafn gan yr aelodau. Diolchwyd gan Miss M. G. Roberts a Mrs Beryl Thomas. Llywydd y noson oedd Mr Eifion

Roberts.

CYMDEITHAS CYFEILLION YSGOL BRYNREFAIL

Enillwyr y Clwb 100 am fis Mawrth oedd:-

E. Parry, Ffordd Bethel, Caernarfon.
Edwina Thomas, Tŷ Capel, Ceunant.
Nan Owen, Rhos Efrog, Llanberis.

DEINIOLEN

W. O. Williams, 6 Rhydfadog. Ffôn: 871259

Enillwyr Clwb 100 Plaid Cymru am fis Mawrth — £10: Mrs Margaret Roberts, Crud yr Awel; £8.50: Mrs Nest Efans, Afon Goch.

Clwb Pêl-droed Deiniolen — enillwyr y Clwb 200 (21/2/92) — £80: 'John Fawr' (165); £40: Perri Evans (68). Diolch am eich cefnogaeth.

Clwb Elidir: Cafwyd cyfarfod ar 13 Chwefror dan lywyddiaeth Mrs Eirlys Ll. Jones. Treuliwyd y prynhawn yng nghwmni Mr Weatherill o'r RSPCA ac fe ddiolchwyd iddo gan Miss Jean Moeller. Gwesteion y te oedd Mrs Eirlys Ll. Jones, Mrs Megan P. Morris a Mrs Alwen Jones. Rhoddwyd y raffl gan Mrs Eirlys Ll. Jones ac fe'i enillwyd gan Mrs Sally Lewis.

Cafwyd cyfarfod arall ar 3 Mawrth dan lywyddiaeth Mrs Megan P. Morris. Cafwyd papur ar y testun 'Ers Talwm' gan Mrs Hannah J. Thomas.

Cydymdeimlwyd â thair o'r aelodau, sef Mrs Eve Braithwaite, Mrs Edna Coles, a Mrs J. Eirlys Williams.

Dymunwyd gwellhad llwyr a buan i Mrs Aileen M. Jones ar ôl cyfnod yn yr ysbyty.

Rhoddwyd y te gan Mrs Jane Jones, Mrs Laura Williams a Mrs Hannah J. Thomas. Enillydd y wobrlwcus, rhoddedig gan Mrs Jane Jones, oedd Mrs Jennie Cashman.

Cronfa Ymddiriedolaeth Deiniolen: Gwahoddir ceisiadau oddi wrth sefydliadau a mudiadau yn Neiniolen am gyfraniad o'r gronfa uchod. Bydd y pentrefwyr yn cofio i'r gronfa gael ei sefydlu at ddibenion elusennol, ac er budd cyffredinol trigolion Deiniolen.

Dylid anfon ceisiadau, ynghyd â chopi o'r fantolen ddiweddaraf, mewn amlen wedi'i marcio 'Cronfa Ymddiriedolaeth Deiniolen' i Ysgrifennydd y Gronfa, 4 Tai

Caradog, erbyn dim hwyrach na 11 Ebrill, 1992.

Pryd ar Glud: Mae'r gwasanaeth hwn i bensiynwyr Deiniolen yn gwegian o fod eisiau gwirfoddolwyr i rannu'r bwyd, rhyw unwaith neu ddwy y mis, naill ai ar ddydd Llun neu ddydd Gwener. Telir pris petrol, ond dwed y rhai sydd wrth y gwaith ar hyn o bryd, mae'r taliad pennaf yw'r croeso dderbyniant ar aelwydydd y derbynwyr.

Os dymunech ymuno yn y gwaith, yn berchen car gydag awr i'w sbario ar y tro, cysylltwch gyda Robert Williams, 4 Tai Caradog.

Cyngor Eglwys: Y Parchedig Dafydd Hughes, Eglwys Seilo, Caernarfon, fu'n adrodd ar ei brofiadau i gyfarfod o'r Cyngor a gynhaliwyd yn Festri Cefnywaun ar nos Lun, 9 Mawrth. Roedd ei adroddiad yn ymestyn o ddyddiau'i febyd cyfnod cythryblus yn y Fyddin, a deng mlynedd ar hugain yn yr heddlu yn dod i ben yn 1989 ac yntau yn swydd Arolygydd. Soniodd am gefnogaeth ac ymyrraeth rhai unigolion ar ei fywyd ysbrydol a'i arweiniodd i gwrs coleg yn Aberystwyth cyn ymateb i'r alwad i'w swydd bresennol.

Cynhelir y cyfarfod nesaf dan nawdd y Cyngor yng Nghapel

Libanus, ar 16 Ebrill, nos Iau Cablyd, pryd y gweinyddir y Cymun gan y Parchedig Olaf Davies. Estynnir croeso cynnes i bawb a dymuna droi i mewn.

Undeb y Mamau: Cynhaliwyd cyfarfod ar 3 Mawrth dan lywyddiaeth Mrs Eileen Hughes gyda darlenniad o'r Beibl gan Miss Jean Moeller. Cafwyd noson ddifyr yng nghwmni y Parch. Geoffrey Hewitt yn siarad am ei waith fel Cyfarwyddwr Cyfrifoldeb

Cymdeithasol yn yr esgobaeth. Diolchwyd iddo gan Mrs Gwen Griffith a Mrs Jennie Williams. Rhoddwyd y te gan Mrs Eileen Hughes a Mrs Glenys Williams. Enillydd y raffl oedd Mrs Gracie Tate. Mrs Hefina Orwig fydd ein gwraig wadd yn y cyfarfod nesaf ar 7 Ebrill. **Eglwys Crist Llandinorwig: Sul y Pasg** — Cymun Bendigaid fore Sul y Pasg, 19 Ebrill, am 10.30 a.m. Gwasanaethir gan y Parchedig Tegid Roberts. Gosber a Phregeth am 5 o'r gloch.

Nos Sul, 23 Chwefror, mewn gwasanaeth arbennig a'r Gwir Barchedig Cledlan Myers, Esgob Bangor, yn gweinyddu confyrmwyd 18 o blant ac oedolion yr Eglwys a'r plwyfi cyfagos. Braff oedd gweld yr Eglwys yn llawn. Ar ôl y gwasanaeth trefnwyd lluniaeth ysgafn gan aelodau Undeb y Mamau.

Diolchiadau: Dymuna Hefin a Pam a'r teulu, Llys Myfyr, ddiolch yn fawr i'w teulu, ffrindiau a chymdogion am y cardiau a'r anrhegion a dderbyniwyd ar enedigaeth eu mab Adam Benjamin Hughes. Diolch yn fawr.

Dymuna Trystan, Cartref, 5 Rhos Cynfi, ddiolch i'w deulu, ffrindiau a chymdogion am fod mor garedig wrtho tra yn yr ysbyty ac ar ôl iddo ddod adref wedi iddo dderbyn llawdriniaeth. Diolch yn fawr iawn. **Cymanfa Dosbarth Cwm-y-glo:** Cynhelir y Gymanfa yng Nghapel Jerusalem, Llanberis, ddydd Sul, 12 Ebrill am 6 o'r gloch.

**COFIWCH
PWYLLGOR LLYWIO
ECO'R WYDDFA
yn Ysgol Brynrefail
Nos Wener, Ebrill 10
am 7.00 o'r gloch**

Dyddiadur y Mis

EBRILL

1 Mercher. Caeathro: Pwyllgor y Cae Chwarae ym Mryn Gwna am 7.30.

2 Iau. Brynrefail: Cymdeithas Chwirydd Eglwys M.C. — noson yng nghwmni Mary Vaughan Jones.

Bethel: Cantorion Elidir yn yr Ysgol Gynradd.

3 Gwener. Deiniolen: Bingo yn Ystafell y Band am 8. **Waunfawr:** Yr Urdd — penwythnos yng Nglanllyn.

4 Sadwrn. Cymdeithas Bysgota: Cystadleuaeth Ieuencid ar Lyn y Dywarchen am 12 o'r gloch.

5 Sul. Cymdeithas Bysgota: Cystadleuaeth Oedolion ar Lyn y Dywarchen am 2 o'r gloch.

6 Llun. Waunfawr: Cyfarfod Blynnyddol y Cylch Meithrin yn y Ganolfan am 8.

7 Mawrth. Penisarwaun: Yr Urdd — Parti a Disgo. **Deiniolen:** Undeb y Mamau am 7 o'r gloch. **Llanrug:** Merched y Wawr — Trin Gwallt.

8 Mercher. Waunfawr: Yr Urdd — noson diwedd tymor.

9 Iau. Bethel: Ffair Wanwyn yr Ysgol; Cantorion Elidir.

10 Gwener. Deiniolen: Bingo yn Ystafell y Band am 8. **Ysgol Brynrefail:** Pwyllgor Llywio

Eco'r Wyddfa am 7.

12 Sul (Sul y Blodau). Dosbarth Cwmyglo: Cymanfa yn Eglwys Jerusalem Llanberis am 6 o'r gloch.

14 Mawrth. Yr Ardal: Antur Padarn yn y Sefydliad Coffa, Llanrug, am 7.

16 Iau (Dydd Iau Cablyd). Deiniolen: Cyngor Eglwys — Gwasanaeth Cymun yng Nghapel Libanus. **Bethel:** Cantorion Elidir yng Nghapel Saron. **Llanrug:** Cyngor Eglwys — Gwasanaeth Cymun yn y Bryngwyn am 7.

17 Gwener y Groglith. Dinorwig: Eglwys y Santes Fair — Gwasanaeth Litani a Phregeth am 9.30 y bore. Yn y prynhawn gorymdaith am 2 o'r gloch.

19 Sul y Pasg. Dinorwig: Eglwys y Santes Fair — Cymun Bendigaidd am 10. **Deiniolen:** Eglwys Crist Llandinorwig — Cymun Bendigaidd am 10.30 o'r gloch.


23 Iau. Bethel: Cantorion Elidir yng Nghapel Saron.

24 Gwener. Deiniolen: Bingo yn Ystafell y Band am 8.

27 Llun. Llanrug: Tombola yn Ystafell y Band.

30 Iau. Bethel: Cantorion Elidir yn yr Ysgol Gynradd. **Deiniolen:** Plygu'r Eco.

CROESAIR EBRILL



AR DRAWS

- Yr W.W. enwog (10)
- Fel malwen ar lafar gwlad (3)
- Beth yw llo? (3,1,4)
- Sir AW yw'r wlad fwyaf yno (5)
- Coch yw i'r ffrwyth (3,4)
- oedd symud i'r swydd (3,2)
- Dos — — ! (1,4)
- Elen ac Elen (3,4)
- Natur ddynol (5)
- Gadawodd y potsier — — (2,6)
- Nifer yn y ffwrn (3)
- Stormus (5,1,4)


I LAWR

- Y cyntaf un! (3)
- Cwpwrdd o'r oes a fu (6)
- Gŵyl Werin (6)
- (a 5) Gwymon fel tōst (4,4)
- Mab i frawd Samiwl (3,3)
- gweler uchod
- Clòs a thrymaidd
- Sglodion — — i'r plant (1,6)
- Ar dy ben di (5)
- Nid ar redeg y gwneir hyn (6)
- Wali'n ôl Mr Picton (6)
- Benfelyn (4)

20. Fel'na mae'i dallt hil! (4)

22. Y ferch Ben Aur (3)

ATEBION MAWRTH




Pum ymgeisydd yn unig y tro hwn, a'r pump yn gywir! Yr enillydd yw Iorwerth Williams, Rhoslan, Sgwâr Uxbridge, Caernarfon.

CLYWED WRTH BASIO (parhad)



Irfon Hughes ac Andrew Williams.

★ Pêl-droed i gyd y tro yma! Mae yna ddau o bêldroedwyr ifanc yr ardal — **Gareth Jones, Bethel**, ac **Aeron Davies, Llanberis**, wedi cymryd y cam cyntaf ar risiau datblygiad pêl-droed trwy gael eu dewis i dîm dan 14 Arfon. Da yw gywbod bod y 'ffatri bêl-droed' yn dal i ffynnu!



Gareth Jones



Aeron Davies


I gau pen y mwdwl ar stori y cap o'r rhifyn diwethaf. Clywodd Iolo Morgan oddi wrth Gymdeithas Pêl-droed Cymru bod bwriad i gyflwyno'r cap i deulu'r diweddar Leslie Boulter.

Rhaid llongyfarch Wayne Philips (cyn gefnwr Llanrug) a enillodd gap 'B' i Gymru yn erbyn Canada.

PWYSIG! PWYSIG!

Anfonwch eich cynigion y mis hwn i OLYGYDD Y MIS. Mae ei enw ar dudalen 2 o'r papur. Dilynwch y drefn hon o hyn ymlaen.

Cafwyd cystadlu brwd ar fyrrdau snwcer Llanberis am gWpan Coffa Glyn Penny. O dan lygad barcu Oliver Edwards (Len Ganley y fro!), trechwyd Meirion Evans yn y rownd derfynol gan David Arfon Hughes. Cyflwynwyd y cwpan gan John a Huw, meibion Glyn Penny.



John a Huw yn cyflwyno'r tlysau i Dafydd Arfon Hughes (cyntaf) a Meirion Evans (ail).

RHAGRYBUDD PWYSIG!!

Mae'n fwriad trefnu cystadlaethau pêl-droed rwng-bentrefol i ysgolion cynradd ac oedolion eleni. Dechreuwch ymarfer a hel tîm. Manylion i ddilyn.

CHWARAEON

BETH ALLA' I WNEUD?

Y mae twf rhai o bentrefi bro'r *Eco* yn ystod y blynyddoedd diwethaf yma wedi bod yn syfrdanol, ac fe ddaeth nifer ohonynt yn bentrefi sylweddol. Erbyn hyn mae yn yr ardal ganran uchel iawn o boblogaeth ifanc. Yn anffodus mae'r crwydro dibwrpas o gwmpas y strydoedd a'r gri nad oes 'dim byd i'w wneud' yn sefyllfa nodweddiadol o'r ardal er fod cyfraniadau clodwiw yn cael ei wneud gan fudiadau fel yr Urdd, Ffermwyr Ieuaic a'r Clybiau Ieuenctid. Yn amlwg mae yna angen am rywbeth pellach i'r oedran na all fynychu clydwch y tafarnau lleol i fwynhau gêm o pŵl neu ddartiau.

Y mae yna draddodiad cryf ym myd y campau yn yr ardal gan amrywio o'r prif gemau, fel pêl-droed, i godi pwysau, athletau, pysgota, sgîo a badminton.

Y mae'n fwriad gan Gyngor Bwrdeistref Arfon i ddatblygu **Cyngor Chwaraeon Lleol** gan ymadael â'r syniad o ganoli chwaraeon yn y prif ganolfannau. Y 'babi' newydd fyddai y **Gymdeithas Chwaraeon** yn y pentrefi unigol ac amcan y gymdeithas leol fyddai tynnu holl glybiau a thimau'r pentref at ei gilydd. Gallai'r pentref wedyn greu strwythr o ddatblygiadau yn y pentref gan nodi eu prif flaenoriaethau. Y pwyslais pennaf fyddai creu sefyllfa ple gellir cynnig mwy o agweddau ar chwaraeon i'r ieuenctid.

Fe fyddai'r Cyngor Pentrefol yn rhan o fframwaith y Cyngor Chwaraeon Lleol (Arfon) ac yn darparu swyddogion yn ogystal â gwaith ysgrifenyddol. Buasai'r arbenigrwydd yma yn fanteisiol pan yn trafod grantiau, ac ati, gyda'r gwahanol asiantaethau. Mae **Cyngor Chwaraeon Cymru** yn gefnogol i'r fenter. Fe fyddai llwyddiant y fenter yn dibynnu ar ymdroddiad a chyfraniad y pentrefwyr eu hunain ac i'r perwyl hwn byddai Cyngor Chwaraeon Cymru yn cyfranu tuag at sefydlu cyrsiau i hyfforddi unigolion, ac felly yn creu mwy o arweinyddion. Yn ddiamheuol mae yna gryn arbenigedd yn bodoli yn y fro, ond amharod yw llawer i roi o'u hamser.


Mae'r Waunfawr ar y blaen gyda adnoddau a rhaid eu llongyfarch am eu trefniadau, dyfalbarhad a'u gweledigaeth. Bydd gan Bethel a Phenisarwaun eu neuaddau newydd yn y dyfodol agos ac fe fyddai ymchwilio i'r cynllun newydd yma yn gaffaeliad i'r pentrefi hyn. Mae yna wir angen am fwy o gymysgu ymysg y gwahanol oedranau a pha well ffordd na thrwy chwaraeon. Nid pawb sy'n hoffi pêl-droed ond yn y neuadau pentref cyfyng gellir cynnig nifer o chwaraeon dan do fel snwcer, bowls, badminton, a.y.y.b. Os oes arian mawr wedi ei gyfrannu a'i wario ar adnoddau newydd, yna mae'n rheidrwdd fod yr adnoddau hynny yn cael eu defnyddio yn rheolaidd ac fel adnodd amlbwrpas.

Os oes gan unrhyw bentref ddiddordeb yn y cynllun gallant gysylltu â un ai **Marian Jeffrey (Swyddog Datblygu Cyngor Chwaraeon Cymru)**, **Plas Menai**, neu **Aled Roberts, Cyngor Arfon**.

Yn dilyn cyfarfod nos lau, 19 Mawrth, penderfynwyd symud ymlaen i ffurfio Cyngor Chwaraeon Lleol yn Arfon.

CLYWED WRTH BASIO

★ Mae **GAVIN ALLEN**, ymosodwr 16 oed Deiniolen yn gwneud ei farc yng Nghynghrair Sain. Mae ei ddawn gyda'r bêl a'i lygaidd naturiol am gôl yn amlwg ac mae'r clybiau mawr wedi sylwi



Gavin Allen.


ar hyn. Bydd Gavin yn ymuno â chlwb Tranmere Rovers yn ail adran Barclays ar ddiwedd ei yrfa ysgol. Cytundeb dwy flynedd fydd ganddo i ddechrau. Bydd profiadau 'brawd mawr' yn sicr o'i helpu ym myd cystadleuol y gêm broffesiynol. Pob hwyl iddo — Aldridge ac Allen, efallai?

★ Manchester United ynteu Leed — Bethel neu'r Gelli? Dyna'r ddau gwestiwn mawr a diwedd y tymor yn nesu. Yng nghynghrair Ysgolion Cynradd y cylch mae'n hynod o agos gyda popeth yn dibynnu ar y gêm olaf rhwng hogai'r wlad a hogia'r dre'. Mae 10 gôl **Andrew Williams** yn sbardun i Fethel. Un arall o'r sêr **Irfon Hughes** sydd wedi dal sylw y dewiswyr ac eisoes mae wedi cynrychioli timau o dan 11 a than 12 cylch Gwyrfa.

(parhad ar dudalen 15)

TLWS Y MIS

Enillydd Tlws y Mis am fis Mawrth yw **Colin Jones** sydd erbyn hyn wedi datblygu i fod yn un o'r cewri mwyaf ym myd chwaraeon a gynhyrchwyd yn yr ardal yma. Yn bencampwr cenedlaethol unwaith eto gan iddo ennill Pencampwriaeth Ysgolion Cymru yn y Drenwydd ac mae erbyn hyn ar lwyfan byd-eang. Mae o'n dilyn yn ôl traed Ieuan Owen wrth gystadlu ar y lefel yma.



Enillydd Tlws y Mis (Chwefror) oedd **Richard Williams**. Hefyd yn y llun mae **Stephen Owen** a ddaeth yn ail agos.

YR ARWR TAWEL

Y tueddiad mewn unrhyw dîm pêl-droed yw gweld y chwaraewyr fel yr elfennau pwysicaf. Ychydig iawn o sylw a roddir i'r pwyllgor gweithgar — yn wŷr a gwagedd. Y mae'r llythyr gyferbyn yn canolbwyntio ar un arall o hanfodion unrhyw dîm — dyn y 'sbwnj hud'. Noel Owen, o glwb Deiniolen, yw testun y llith, a braf gweld y sylw a roddir i 'gamp' y gwelai ef fel 'rhan o'r job'. Pobl ddiymhongar ydynt fel arfer — ac mae dyled gan nifer o chwaraewyr y fro i Lofty, y diweddar Stan, a Max a'i tebyg.

Ysgrifennaf ar ran Clwb Pêl-droed Dyffryn Nantlle i dynnu sylw eich darllenwyr at rywbeth a ddigwyddodd yn gynharach y mis yma pan oedd ail dîm Nantlle Vale yn chwarae yn erbyn Deiniolen yn Llanrug.

Yn dilyn damwain ar y cae fe sylweddolwyd bod un o chwaraewyr Nantlle, bachgen ifanc 16 oed o'r enw **Ian Williams**, mewn trafferthion ac wedi llyncu ei dafod. Yn ffodus yr oedd hyfforddwr Deiniolen, sef **Noel Owen**, yn gwybod yn iawn beth i'w wneud, ac oherwydd ei allu a'i sgiliau cymorth cyntaf fe ddath lan ato'i hun yn iawn. Hebdo ef, ni wyddom beth fuasai wedi digwydd y prynhawn hwnnw. Y tebygrwydd yw ei fod wedi achub bywyd y bachgen.

Mae hyn yn tanlinellu y pwysigrwydd o gael person cymwys a phrofiadol mewn Cymorth Cyntaf yn bresennol ym mhob gêm bêl-droed. Y mae Clwb Deiniolen yn lwcus iawn bod rhywun fel **Noel** ar gael iddynt bob dydd Sadwrn. Diolch iddo a diolch i Glwb Deiniolen am eu cymorth.

Yn gywir iawn,

MEICAL ROBERTS

(Rheolwr Ail Dîm Dyffryn Nantlle)
Gwynfa, Ffordd Rhedyw, Llanllyfni.

AR LAN YR AFON

Wedi dwy flynedd o weithio caled fe welir ffrwyth llafur criw bychan o aelodau brwdfrydig a fu'n cwblhau'r Ddeorfa yng Nghrawia. Mae'r Ddeorfa bellach yn destun cenfigen cymdeithasau pysgota ledled Cymru. Da iawn hogia — ma' dyled y Clwb yn fawr iawn ichi.

Mae'r cyflenwad olaf o oddeutu 1,000 o bysgod — hyd at wyth modfedd — wedi'i rhoi yn y tanciau; ac os yw'r flwyddyn ddiwethaf i'w defnyddio fel pren-mesur fe dyf y rhain oddeutu modfedd y mis. Felly gellir rhoi cyflenwad o'r pysgod yn Llyn Dywarchen yn ystod mis Mai ac erbyn mis Gorffennaf fe fyddant yn bysgod braf a dweud y lleiaf.

Araf iawn yw'r 'sgota ar yr afonydd ond fe glywyd am laniu brithyll brown — oddeutu pwys — o'r Afon Seiont, ger Pontug. Mrs **Audrey Roberts** o Seion oedd y bysgotwraig ac mae hi'n brysur yn dod yn hen law gyda'r enwair gan iddi ennill ei lle yn nhîm rhyngwladol y merched — rwy't ar ei hôl hi **Adrian**!

Ar 12 Ebrill, ar Lyn Trawsfynydd, fe gynhelir cystadleuaeth gyntaf y

Gymdeithas am y fraint o gynrychioli'r Clwb yn nhrefalon dethol tîm oedolion Cymru am 1993.

Bellach mae pysgota o gwch yn cynyddu mewn poblogrwydd ac mewn ymateb mae'r Gymdeithas yn edrych ar y posibilrwydd o roi cychod ar lynnoedd eraill fel sydd ar lyn Dywarchen. Byddai'r Gymdeithas yn falch o sylwadau'r aelodau am hyn.

Cofiwch bod cystadleuaeth yr ieuenctid i'w chynnal ar Llyn Dywarchen, ddydd Sadwrn, 4 Ebrill, o 12 hyd 4 o'r gloch; ac yna cystadleuaeth yr oedolion ar bnawn Sul, 5 Ebrill, am 2 o'r gloch.